

Y STAMP

RHIFYN 3 • GAEAF 2017

LOWRI HAVARD • ANEIRIN KARADOG • TERHI KALLIOLA • STEVEN JONES
NATALIE ANN HOLBOROW • NOEL JAMES • LOWRI IFOR • MORGAN OWEN



Penny - Terhi Kalliola

Mae hi wastad yn braf clywed am *Y Stamp* yn teithio y tu draw i ffiniau Cymru. Mae Milla Saraceno yn ddarllenwraig brwd o'r Ffindir, a dyma neges a gawsom ganddi yn ôl ym mis Mehefin:

Annwyl olygyddion,

Helo! Milla dwi. Dwi'n dod o'r Ffindir ac yn byw yno, ond yn gobeithio symud i Gymru pan mae'n amser i mi fynd i'r brifysgol. Mae gen i ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg (a phopeth felly) ac wedi mwynhau darllen eich cylchgrawn yn fawr iawn - mae'n hollol wych!

Fe wnes i sylwi ar yr hysbysiad am artistiaid. Dwi ddim yn paentio o gwbl, ond mae fy mam yn artist. Mae hi'n paentio pob dydd, trwy'r dydd - felly mae 'na ddewis - ond does gen i ddim syniad am ba fath o gelf yr ydych chi'n chwilio. Mae hi'n hoffi paentio anifeiliaid, cacti a phobol â dyfrlliw.

Ond...

Dyma Penny. Gafr hyfryd iawn ydy hi, wnaeth gyrraedd Ynys Enlli ar yr un diwrnod a fy mam pan aeth hi (fy mam) i aros yno am wythnos. Daethon nhw yn ffrindiau gorau yn syth, gan nad oedd y geifr eraill yn derbyn Penny o gwbl. Roedd mam (a Penny) yn drist iawn pan roedd yn rhaid iddi adael yr ynys.

(Roedd hi eisiau i mi adrodd y stori yma.)

Mae llun dyfrlliw o Penny a baentiwyd gan fy mam wedi ei atodi i'r e-bost yma. Os oes gennych ddiddordeb yn ei chelf hi, mi allwch chi ffeindio mwy ar ei chyfrif Instagram, @sushipulla.

Diolch o galon am eich gwaith chi ar Y Stamp. Dwi'n edrych ymlaen at y rhifyn nesaf!

Milla.

Gofynnodd *Y Stamp* i'r bardd Siân Miriam ymateb i'r llun ar ffurf cerdd. Gallwch weld y canlyniad ar dudalen 21.



Nadolig Stampus, un ac oll

Y STAMP

RHIFYN 3

GAEAF 2017



ystamp.cymru U @ystampus

Hawlfraint © 2017 Y Stamp
Argraffwyd gan Argraffwyr Cambrian

Dylunydd - Iestyn Tyne

Celf y clawr - Elin Meredydd

Mewnosodiad - Alek Bednarski

*Barn yr awduron unigol a gyhoeddir yn *Y Stamp*, ac nid o reidrwydd rhai'r cylchgrawn a'i olygyddion.*

DIOLCH

Am y croeso a'r gefnogaeth yng Nghaerdydd a Chaernarfon wrth lansio'r ail rifyn yn Nhafwyl a Gŵyl Arall; i'n teuluoedd a'n ffrindiau; I CHI, ddarllenwyr annwyl; ac yn bennaf oll, i'r holl stampwyr disglair sy'n eich disgwyl rhwng y cloriau hyn.

CYNNWYS

Celf - Terhi Kalliola	2	AilBobi Jones - Lowri Ifor	22
Golygyddol - Grug Muse	6	Cerdd - Tudur Hallam	24
Y Labordy - Aneirin Karadog	8	Llên Meicro - Miriam Elin Jones	25
Cyfweliad - Natalie Ann Holborow	9	Adolygiadau	
Cerdd - Natalie Ann Holborow	12	<i>Galar a Fi</i> - gol. Esyllt Maelor	27
Cartrefi Cymru 2.0 - Morgan Owen ...	13	<i>Hollti</i> - Manon Wyn Williams	27
Cerdd - Steven Jones	15	<i>Pobl i'w Hosgoi</i> - Ruth Richards	28
Barn - Alun Jones (Golygydd)	16	<i>Canrif yn Cofio</i> - gol. Ifor ap Glyn	28
Barn - Alun Jones (Awdur)	17	<i>Rhannu Ambarél</i> - Sonia Edwards	29
Cerdd - Lowri Havard	18	Cardiau Nadolig - J.A.J.	31
Stori Fer - Noel James	19	Adnabod yr Artist - Elin Meredydd	32
Cerdd - Siân Miriam	21	Y Stampwyr	33

Y STAMP

GOLYGYDDION

Grug Muse / Miriam Elin Jones / Llŷr Titus / Iestyn Tyne



ystamp.cymru // @ystampus // facebook.com/ystampus

golygyddion.ystamp@gmail.com

👉 ARTISTIAID! 👈

Mae'r **STAMP** eich angen chi!

Rydym yn chwilio am artistiaid i arddangos eu gwaith ar gloriau'r dyfodol - cysylltwch os oes gennych ddiddordeb!

GOLYGYDDOL

GRUG MUSE

Dwi'n berson cystadleuol iawn. Mi wna i gystadlu yn eich herbyn chi ar unrhyw beth. Pwy sy'n medru beicio gyflyma fyny Constitution Hill (un Abertawe); pwy sy'n medru nofio bella heb anadlu; gwallt pwy sy'n tyfu hira... os dio'n fesuradwy, mi wna i gystadlu yn eich herbyn chi. Roedd dechrau cystadlu efo llenyddiaeth felly yn beth cwbl naturiol. Mi ddechreuais i'n ifanc, a chael blas ar wneud. Ond tydi'r ffaith mod i fel unigolyn wedi elwa o gyfundrefn gystadlaethau llenyddol Cymru ddim yn reswm i beidio sbïo yn feirniadol ar y traddodiad hwnnw; i ystyried ei ffaeiddau a'i gryfderau. Ar ben hynny, onid oedd un o addewidion cychwynnol *Y Stamp* yn pwysleisio fod creu celfyddyd yn ddiben ynddo'i hun, heb fod angen dilysiant allanol cyfundrefn gystadlu?

Nid oes yn rhaid wrth sêl bendith beirniaid eisteddfodol – mae ymdrechu i greu darn o waith yn ddigon o wobwr, heb fynd ar ofyn yr un cadair na choron. **RHYDD** i bob bardd neu lenor gystadlu, pe bai eisiau, ond pwysleisir nad oes rhaid.

Wel ia, mae celfyddyd er mwyn celfyddyd a hynny yn wobwr ddigonol yn syniad hyfryd. Ond pan mae ganddoch chi rent i'w dalu, tanysgrifiad i *Classic Car Weekly* i'w gynnal, a kimono porffor o M&S i'w brynu, tydi "mawr fydd eich gwobwr yn y nefoedd" ddim am wneud y tro.

Ac am resymau ymarferol, gyfaol, cyfalafol fel hyn mae nifer ohonom ni yn cystadlu. Mae yna gred gyffredin ymysg llawer o lenorion ifanc fod angen cystadlu i 'lwyddo'. Mae medal neu gadair yn neis iawn, ond i nifer, rhan bwysica'r wobwr ydi cael eich llun yn Golwg a'r Daily Post. Rydw i wedi siarad efo peth wmbreth o bobol sydd wedi adrodd rhyw gŵyn fel hyn: "Dwi ddim yn hoffi cystadlu, ond os ydw i eisiau cael fy *big break* a llwyddo, does yna ddim ffordd arall". Mae o'n gyfle i godi proffil, tynnu sylw at waith, a denu llygaid golygyddion a chomisiynwyr fydd yn cynnig gwaith yn y dyfodol (croesi bysedd). Ac yndi, mae'r 15 munud o enwogrwydd, ys dywed y Sais, sy'n dod efo ennill un o brif wobrau'r Urdd neu'r Gen yn medru bod yn hwb i'r CV, ac os ydi'r llenor ifanc yn safi yn y ffordd y mae'n manteisio ar y sylw mi all



fod yn coup da iawn.

Yn hyn o beth, rhaid cofio elfen arall bwysig o'r traddodiad cystadlu Cymraeg, sef natur ddiennw y cystadlaethau llenyddol. Mae'r cystadlaethau diennw yn golygu fod pob darn yn cael ei feirniadu ar sail rhagfarnau'r beirniad o ran chwaeth a sylwedd yn unig; rhagfarnau perthnasol yn yr achos hwn. Nid oes modd beirniadu'r gwaith ar sail rhagfarnau fel rhyw, rhywioldeb, hil, neu oed y cystadleuydd; rhagfarnau amherthnasol wrth fesur safon y gwaith. Ac mae hynny'n beth i fod yn falch iawn ohono fo. Ond nid hudlath wyrthiol i ddatrys ein holl broblemau, a rhoi chware teg i bawb ydi'r egwyddor hon chwaith. Yn dyst i hynny mae'r ffaith fod ein prif gystadlaethau diennw hyd yn hyn wedi methu esgor ar gorff o enillwyr sy'n

gynrychioladol o drawstoriad ein cymdeithas.

Y gwir amdani ydi fod themâu heteronormadol a chenedlaetholdeb wrywaidd yn dal i ddominyddu y math o waith sy'n dod i'r brig, ac mewn perygl o ffosileiddio diwylliant llenyddol Cymru i fewn i un pair o ddynion meddw yn wlo mewn i'w gwydrau, yn gwarafun marwolaeth yr iaith (wedi ei ddelweddu'n drosiadol gan ferch secsi wrth y bar) hyd dragwyddoldeb. A tydi cyfundrefn gystadlu hegemoniaidd sy'n gwarchod grym a braint y to aeddfed, sefydliadol heb wneud dim i newid hynny. Mae'n ei gwneud yn hawdd i ni ffiltrio ein llenorion i'r categorïau 'teilwng', 'addawol', 'disglair', o fewn cyfundrefn sydd, trwy sicrhau porthorion grymus ar ffurf beirniaid, yn atgyfnerthu a dyblygu gwerthoedd a syniadau y genhedlaeth a fu ar draul arbrofi, a newydd-deb profiad.

Wrth gwrs, rydw i'n cyffredinoli yn ddychrynlyd. Mae digon o feirniaid sy'n agored i arddulliau a syniadau newydd, ac i brofiadau diarth, ac i ffyrdd newydd o ddefnyddio iaith, a rhai sydd ddim wir yn ran o'r sefydliad barddol. Beirniaid sydd wedi datblygu eu chwaeth gyda phrofiad, ond heb adael i'r chwaeth honno droi'n rhagfarn gibddall. Ond ar yr un pryd, mae na fôr o feirniaid sâl, llawn rhagfarn ddisylwedd, sydd heb syniad sut i sgwennu beirniadaeth adeiladol; sydd yn diystyru'r anghyfarwydd fel 'ffasiwn', ac yn gwarchod goruchafiaeth eu ffordd nhw o sgwennu yn ffyrnig.

Mewn cenedl lle mae'r 'sefydliad' yn llyncu pawb cyn eu pump ar hugain; yn eu gwneud nhw'n aelodau o'r orsedd a hwythau dal yn eu harddegau; yn llowcio pawb i beiriant corfforaethol y BBC ac S4C (a ninnau olygyddion *Y Stamp* gymaint a neb - mae hanner y panel yn orseddigion, a'r cwbl lot yn cael arian poced digon parchus o ymddangosiadau ysbeidiol ar y gwasanaethau cenedlaethol) yda ni'n colli'r cyfle i ryfygu; i siarad wast; i arbrofi? Yda ni'n parchuso'n rhy ifanc? Ac onid ydi'n pwyslais ni ar y gyfundrefn gystadlu yn gwaethygu'r duedd yma?

Faint o waith sy'n cael ei yrru i'r gwobrau 'ma, yn cael ei ganmol i'r entrychion, ac yna yn aros fyny fana yn y cymyla i bob pwrpas, a neb yn ei ddarllen o? lawn, mae mwy o bobl yn ymwybodol dy enw di rwan, ac yn fwy

tebygol o adnabod dy wyneb di mewn line-up. Ond dydi o ddim yn golygu fod na fawr neb newydd wedi darllen dy waith di, yn amal iawn. Mae'r syniad fod angen ennill i lwyddo wedi creu sefyllfa lle mae awduron ifanc yn credu nad oes angen iddyn nhw chwilio a chreu gofodau a chyhoeddiadau newydd i dynnu sylw at eu gwaith. Y gred ydi fod y gyfundrefn draddodiadol yn rhoi hynny iddyn nhw ar blât, (ar yr amod eu bod nhw'n cyrraedd y 'safon', ac yn creu gwaith fydd yn plesio y beirniaid hyn) ond ydi hynny, erbyn hyn, yn wir?

Tydi celfyddyd ddim yn dod mewn unedau mesuradwy. Mae canlyniad cystadleuaeth gelfyddydol yn ddibynnol ar fympwy a chwaeth beirniaid unigol. Does dim byd yn wrthrychol ynddi hi; dim llinyn mesur cyson. Mae'r wyth can medr yn wyth can medr waeth pwy ydi'r dyfarnwr. Ond mae cerdd neu stori yn newid ar bob darlleniad.

Felly dyma ydi fy nghanadwri i wrth eich croesawu chi i rifyn diweddara *Y Stamp*. Cerwch i gystadlu. Neu peidiwch. Fel leciwch chi. Ond peidiwch â meddwl fod na ddyletswydd ar bobol i ddarllen eich gwaith chi, na chwilio amdano fo, jest am eich bod chi wedi ennill gwobr. Beth sydd wir yn torri tir ydi'r weithred o fynd allan a dod o hyd i ffyrdd newydd i gael pobol i ddod i weld eich gwaith chi. Gwnewch stynts. Gwnewch giamocs. Arbrofwch. Methwch. Llwyddwch. Gwnewch sioe ohonoch chi eich hunain; plastrwch eich gwaith ar walia cestyll; perfformiwch o ar ben mynydd; rhannwch o ar y we, efo cwpan-a-llinyn, mewn morse code; gwnewch o mewn print, ar y we, ar bapur wal. Sgwennwch ar waliau toiledau ac ar fatiau cwrw. Go iawn rwan. Cymrwch gawod oer, yfwch goffi cry, gwnewch beth bynnag fyddwch chi'n ei wneud i glirio pen, a defnyddiwch eich blydi dychymyg.

Yn y cyfamser, mwynhewch y wledd sydd wedi ei pharatoi i chi o fewn cloriau hyfryd Elin Meredydd, yng nghwmni nifer o lenorion profiadol a rhai sydd megis dechrau ar eu gyrfaedd; nifer ohonyn nhw sydd dal i dwnelu o dan giatiâu'r porthorion, hyd yn oed wedi iddyn nhw gael sêl eu bendith nhw.

Grug Muse
Abertawe, Tachwedd 2017

Y LAB RDY

Ar gyfer Labordy'r rhifyn yma, cafodd y bardd amlieithog **Aneirin Karadog** yr her o ysgrifennu cerdd oedd yn cynnwys pob un o'i bum iaith - Cymraeg, Llydaweg, Saesneg, Ffrangeg, a Sbaeneg. Y canlyniad oedd rhan gyntaf dilyniant nad yw'r bardd eto wedi ei orffen. Yn ôl Aneirin fe ddaw rhan 2, a'r rhannau olynol yn ôl ei fympwy ei hun a phan fydd yr ieithoedd y mae'n eu medru yn penderfynu barddoni unwaith yn rhagor.

ANEIRIN KARADOG

MACARONI HUNANGOFIANNOL, RHAN 1.

Gallai fy nghlywed i o'r groth,
ha me ivez, ar Brezhoneg a gleve,
et puis que j'étais la lingua franca entre ses parents,
il entendait du français dans l'utérus.
He most probably heard me as well.
Pero yo, no estaba a su lado en ese momento.

Ac yn rhyferthwy'r geni
 a'm clustiau'n gadael clwb nos y groth
 i deimlo palmant oer yr aer,
 y gair cyntaf a'm trawodd oedd "Mochyn!".

(Ond fel yr enw a roddir inni
 neu'r diffyg cwsg a'r mynydd clytiau
 a achoswn i rieni diolchgar,
 ni allaf dderbyn cyfrifoldeb am achosi
 llanast yn fy ngenedigaeth
 fy hunan.)

Daeth ieithoedd drwy'r tŷ
 fel ymwelwyr o bant
 a finne'n cwato tu ôl i goesau mam;
 dieithr fel y Ffrangeg na allwn ei deall
 o waelod y stâr
 wrth i fy rhieni drafod eu pethau pobol fawr.

Codais ambell iaith yn yr ardd
 neu ar iard yr ysgol
 a'u pocedu ar gyfer rhyw adeg
 yn nyfodol fy ngorffennol.

Poerais iaith y bwli i'r gwter.
 "Wo iw lwcin at?"
 "Dim byd."

Yn fy mhoced roedd iaith direidi,
 yn anffodus daeth hwnnw i'r golwg
 a bu'n rhaid ei rwto o fy nhafod,
 yn wahanol i'r dafotieth a safodd
 gyda fi wrth fynd o Glytach i Smutw.

Ond ni ches i, Y Gynghanedd,
 fod yn goflaid gyflawn yng nghlyw
 Aneirin am sawl blwyddyn arall...

CYFWELIAD

Iestyn Tyne yn sgwrsio â

NATALIE ANN HOLBOROW

Oes digon yn cael ei wneud i bontio'r bwlch rhwng y llenorion sy'n ysgrifennu yn Gymraeg, a'r rheini sy'n Gymry ond yn ysgrifennu yn Saesneg? Mae Natalie Ann Holborow yn fardd o ardal Abertawe sy'n ysgrifennu yn Saesneg, a chyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf; *And Suddenly You Find Yourself*, yn gynharach eleni. Mae hi hefyd â chlefyd siwgr (math 1), fel fi, ac yn gweithio ar gyfrol am y cyflwr hwnnw. Roeddwn i'n awyddus i drafod sawl peth â hi felly. Dyma bytiau o sgwrs a fu rhyngom yn Abertawe yn ddiweddar wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg.

I: Mi wna i ddechrau efo'r gerdd '*Broken Grapes*', a'r blog, achos mi wyt ti'n cyhoeddi yn eitha aml ar y blog. Mi wnest ti ddeud bod y cerddi ar y blog yn fwy o ddrafftiau na gweithiau gorffenedig, ond dy fod di'n hoff o'r ffaith dy fod di'n rhoi dy ddrafftiau allan yna – bod pobl yn medru gweld y broses greadigol.

N: Dwi'n meddwl fod hynny'n bwysig. Mi wnaethom ni hyn pan aethom ni allan i India... penderfynu ein bod ni am roi ein holl waith i fyny ar-lein fel draffts, fel bod pobl yn medru gweld y broses o'i sgwennu o hefyd. Achos dwi'n meddwl, pan ti'n edrych ar ddarn terfynol, ti'n trio meddwl sut mae'r awdur wedi cyrraedd y lle yna – efo dy hoff awduron, ti isho gweld sut ma' nhw wedi cael y syniadau 'na. Felly dwi'n meddwl fod cyhoeddi dy ddrafftiau yn medru helpu, ac yn fan'no ti'n cael adborth hefyd, ar sut i'w newid o... Dwi ddim yn gwneud cymaint rwan... heb wneud llawer o sgwennu, ond mae o wedi bod o gymorth.

I: Ydi cydweithio efo artistiaid eraill yn bwysig i chdi? Mi welish i fideos ohona ti a Richard James Jones o'r prosiect Gelynion. Alli di ddeud rhywfaint wrtha i am hynny?

N: Dwi'n trio gwneud hynny ar y funud... chwilio ym mhobman am fwy o awduron y medra i gydweithio efo nhw, achos mae o jysd yn mynd a dy ddeunydd di i rywle arall... gwneud i chdi edrych ar dy waith mewn ffyrdd gwahanol, achos bod rhywun arall yna'n edrych arna fo efo chdi. Mae hi'n anodd dod o hyd i awduron sy'n gweithio'n dda efo'i



gilydd. Unwaith ti di ffeindio nhw, ma hi'n ddiddorol gweld y dymeg yna ar waith. Ym mhrosiect Gelynion, doedd na ddim dweud pwy fasan ni'n cael ein paru fyny efo. O'n i jesd yn ffodus iawn i fod efo Richard, ac mi wnaeth ei arddull o weithio'n wych hefo fy hun i... ma gynno fo lais cryf iawn, gwrywaidd... ma llais fy ngherddi i yn fwy benywaidd... roedd trio cael y ddau i weithio heb orchfygu ei gilydd yn her.

I: Am wn i, mae cyfieithu yn rhyw elfen o hynny, er bod na lai o gydweithio yn amlwg... ond ti dal yn cymryd rhywbeth a'i roi o i gynulleidfa wahanol. Mi fydd hi'n ddifyr gweld beth fydd yr ymateb i '*Grawnwin*'. Ma'r arddull yn eitha gwahanol i lot o be sy' na yn Gymraeg. Felly ma hynny'n reit gyffrous. Dwi jesd yn gobeithio 'mod i wedi medru gwneud cyfiawnder yn y cyfieithiad. Be di dy broses greadigol di felly?

N: Fel arfer ma gen i lyfr nodiadau yn llawn llinellau sy'n dod i 'mhen i. Dwi'n adeiladu arnyn nhw pan dwi'n mynd o gwmpas fy mhethau. Tydi o ddim nes i fi eistedd i lawr, rhoi'r linell yna ar dudalen... dwi'n gweithio o'i hamgylch hi. Mi allai hi droi allan fel dechrau'r gerdd; mi allai hi droi

allan fel diwedd y gerdd... efallai na ddaw'r cyfan efo'i gilydd. Un sbarc sydd wedyn yn sbarduno popeth arall.

Dwi'n gorfod gweithio ar ddarnau terfynol ar fy laptop. Dwi'n ei chael hi'n anodd iawn i'w gael o allan wrth sgwennu efo llaw. Mae'r broses yn wahanol ar gyfer syniadau. Pan dwi wrth fy laptop dwi'n gwybod: Ocê, dwi'n gneud darn terfynol rwan.

I: Ac efo cerddi rhydd iawn eu natur, mae o'n dda tydi – mae gen ti'r gallu 'na i symud pethau o gwmpas ar y dudalen. Ti'n medru ei weld o – os ti'n sgwennu rhywbeth ar ddarn o bapur, mae o'n eitha concrit dydi. Mi wnest ti ddeud nad wyt ti wedi sgwennu llawer yn ddiweddar. Sgen ti ddim nofel ar y gweill? A'r llyfr ar glefyd siwgr?

N: Wel, ia, ma hwnna [y nofel] di mynd yn ôl 'ryw chydig rwan. Dwi'n teimlo 'mod i 'di mynd i fewn i hwnna'n rhy sydyn, yn rhannol dwi'n meddwl oherwydd y fwsariaeth gesh i gan Llenyddiaeth Cymru. O'n i'n teimlo fel tasa raid i mi gael cymaint a phosib i lawr mewn un go, felly ma lot o hwnna'n mynd i orfod dod allan a chael ei ailwampio. Ond mae o yna, felly mi alla i ddod yn ôl ato fo pryd bynnag. Tra efo'r llyfr clefyd siwgr wedyn – ma hwnna'n rywbeth o'n i wir isho ei drïo, achos mae o'n hollol wahanol; steil wahanol o sgwennu – mwy naturiol i fi. A dwi wrth fy modd yn clywed straeon pobl hefyd, am glefyd siwgr.

Dwi wastad wedi meddwl, ah, mi faswn i wedi elwa o gael llyfr neu rywbeth fyddai'n siarad efo fi ar fy lefel fy hun, yn lle roi row i mi. Felly dwi'n teimlo tasa arbenigwyr iechyd neu rieni yn medru rhoi'r llyfrau 'ma i bobl ifanc yn eu harddegau pan maen nhw'n ei chael hi'n anodd, neu ei argymell o iddyn nhw, ella y basan nhw'n teimlo bron bod ganddyn nhw ffrind, hyd yn oed os ydyn nhw'n methu siarad efo rhywun am y peth.

I: Ma hynny'n sicr yn rywbeth y baswn i wedi ei groesawu. O'n i wastad yn teimlo 'mod i wedi ymateb yn eitha amddiffynol yn fwy na dim i'r holl... sydd ddim yn dda i chdi, yn amlwg! Dwi heb sgwennu am y peth tan yn ddiweddar. Mi wnes i bwynt o beidio a deud y gwir achos 'o, dwi'm isho gneud pwynt o'r peth, neu 'dwi'm isho gneud ffys, dwi'm isho rhygnu mlaen am y peth, dio'n ddim byd,

ddim yn big deal.'

N: Mae o'n gyflwr nad ydi pobl yn ei ddallt. Mae o'n anodd iawn ei roi o mewn geiriau, a dwi'm yn gwybod wyt ti'n ffeindio hyn pan ti wrthi, ond yr holl resentment na oedd gen ti yn dy ardegau – mae o dal yna, ac mae o'n stopio chdi rhag sgwennu. Fel ti newydd ddeud – dwi'n teimlo yr un fath weithiau – 'di o ddim yn big deal,' ond wedyn dwi'n meddwl, ma'n siwr mai dyna'r rheswm 'mod i mor flin, a pam 'mod i'n methu sgwennu amdano fo. Ti jesd yn gorfod ei daclo fo ar dy ben dy hun a gweld be sy' na.

I: Ti di enill sawl gwobr am dy farddoniaeth. Faint o hwb fuodd hynny? Mae o'n ddiffrychos ar yr ochr Gymraeg da ni'n cael ein magu yn cystadlu i bob pwrpas – yn yr eisteddfodau ac ati.

N: Dwi yn meddwl eu bod nhw'n help. Y prif un i mi oedd gwobr Terry Hetherington; nid jesd am ei fod o'n wob, ond am eu bod nhw wedi gweithio'n galed iawn i adeiladu cymuned o sgwennwyr ifanc hefyd. A dwi'n dal i fod mewn cysylltiad efo nhw. Dwi'n mynd draw bob blwyddyn i gyfarfod awduron newydd, a ti'n dechrau gweld eu henwau nhw'n dod i fyny mewn llefydd eraill wedyn. Dwi'n meddwl mai dyna'r gwahaniaeth – mae o'n iawn gwneud y rhai mawr cenedlaethol 'ma – gweld dy enw ar y rhestr fer a gwybod dim oll am neb arall. Ond yng Nghymru ma' gen ti rwydwaith well o gefnogaeth – gwobr Robin Reeves hefyd; dwi di dod yn ffrindiau da efo'r ddwy hogan o'r gystadleuaeth honno hefyd.

I: Mae o 'run fath i ni efo steddfod Yr Urdd. Maen nhw'n danfon enillwyr y prif wobrau llenyddol i gyd ar gwrs yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy. Ma gen ti diwtoriaid gwy, a ma pawb yn dod at ei gilydd yn y lle hyfryd ma i sgwennu. Mae o... bownsio off bobl eraill sydd yr un fath, a sylwi nad wyt ti cweit mor weird ag oeddat ti'n feddwl!

N: Ma' cael gwobrau felna y tu ôl i chdi pan ti am i gyhoeddwr dy gymryd di o ddifri yn help hefyd, achos ma' honna'n lôn hir.

I: Ac Abertawe? Sut sîn sy' ma os ti am i bobl glywed dy lais? Oes raid i chdi fynd yn bellach i wneud gigs a ballu?

N: Dim rili, ma na lot yn mynd ymlaen yma. Ma hi'n teimlo fel tasa na wyliau newydd yn cael eu sefydlu o hyd; llwyth o nosweithiau open mic hefyd. Dwi'n meddwl fod na lot mwy yn dechrau digwydd yng Nghaerdydd rwan hefyd, ac mae pobl yn trio teithio i fyny i'r rheini hefyd. Mae na wastad rywbeth yn yr wythnos i fynd iddo fo os wyt ti am gael dy waith allan yna... clywed barn pobl.

I: Ac wyt ti'n gweld digon o groesi drosodd rhwng bydoedd y beirdd sy'n sgwennu'n Gymraeg a'r rhai sy'n sgwennu'n Saesneg?

N: I mi, mae o'n fyd eitha rhanedig. Ti naill ai fewn i dy farddoniaeth a dy ffurfiau Cymraeg, neu ti'n galw dy hun yn fardd Saesneg neu Eingl-Gymraeg, a ti jysd yn sgwennu'n Saesneg ond gest ti dy eni yng Nghymru. Bob hyn a hyn mi gei di air Cymraeg wedi'i daflu fewn ond anaml y cei di fwy na hynny. Dwi'n gwybod am rai...

I: Achos yn amlwg, mae na rai geiriau Cymraeg wedi eu pupuro yma ac acw yn dy gyfrol... angen i ni i gyd wneud mwy felly!

N: Oes... a dwi'n meddwl hefyd efo open mics, mi gei di rai sy'n codi a darllen barddoniaeth yn Gymraeg, ac er nad wyt ti'n ei ddallt o os nad wyt ti'n siarad Cymraeg, ma gen ti'r musicality yna... sŵn y peth hefyd. Felly dwi'n meddwl y basa hi'n neis cael mwy o open mics mwy cymysg – mae na bobl sy'n dallt, ond mi all hyd yn oed y bobl sydd ddim gael y patrwm, y rhythm yn eu pennau.

I: Ac wedyn dy gyfrol. Y cerddi – maen nhw'n real iawn, ac yn... ma na lot o galedi ynddyn nhw, ond wedyn ma gen ti hefyd yr elfennau yma o fytholeg a chwedlau'r tylwyth teg a phob math o bethau'n dod i fyny rhyngddyn nhw. O lle daeth hynny?

N: Dwi'n meddwl mai'r syniad tu ôl i'r gyfrol oedd i siarad am y ffaith fod pobl yn ddynol. Hyd yn oed pan ma gen ti'r

cerddi mytholegol, mae eu problemau nhw wastad yn ddy-nol. Hyd yn oed yr arwyr Groegaid. Achilles – mae o'n ei-stedd y tu allan i swyddfa seiciatrydd. Ma ganddo fo PTSD o'r rhyfel, a ti ddim yn meddwl am yr elfen yna pan ti'n darllen mytholeg, neu'n darllen straeon tylwyth teg. Ti'n anghofio bod y cymeriadau yma'n gallu bod fel 'ma. Ac mae o am beidio bod â chywilydd o'r peth hefyd, am

gofleidio'r ffaith ein bod ni'n profi emosiynau, ac yn medru eu cyfleu nhw. Mae o hefyd am gydymdeimlo â phobl.

Dwi'n gobeithio y gwnaiff pobl ddarllen y cerddi yma, a hyd yn oed os nad ydyn nhw'n hoffi'r gweddill, y bydd yna un all siarad efo nhw. Un foment y gallan nhw uniaethu ag o.

I: A pherfformio - wyt ti'n ffeindio hynny'n bwysig?

N: Yndw, yn sicr. Mae o'n rhywbeth y baswn i'n hoffi gwneud mwy ohono. Mae o bron fel math hollol wahanol o farddoniaeth. Os wyt ti am wneud stwff Spoken Word – mae na wahaniaeth rhwng barddoniaeth a Spoken Word. Mae o'n bwysig hefyd, pan ti'n darllen dy waith – mi gei di gymaint sydd ddim yn sbio fyny o'u llyfrau... siarad yn ddistaw iawn. Mae'n rhaid i chdi roi rhyw fath o emosiwn, teimlad – swnio fel dy fod di'n credu dy eiriau dy hun. Mae o'n cymryd amser hir – dwi'n dal i weithio ar hynny...



And Suddenly You Find Yourself

Natalie Ann Holborow / Parthian / £7.99

NATALIE ANN HOLBOROW

GRAWNWIN

Doctor: Mae rhywbeth o'i le, fan hyn
 [yn pwnio canol fy mol]
 wedi'i siapio fel swp o rawnwin: pancreas
 yn pwmpio in-sw-lin.
 Fi: O ydi hynny'n ddrwg
 [Dwi'n procio'r plygiadau o groen babi
 rhwng asennau ac abdomen esgyrnog
 yn chwilio am rawnwin
 ond dwi'n gwingo, yn teimlo'r drip
 yn bachu yng nghotwm fy mlows ysgol]
 Doctor: Mi fydd angen chwistrellu
 bob dydd
 Fi: [chwys oer, gan ddychmygu
 bol yn sugno'r dur
 fel sigarét grynedig, ddi-fwg]
 Doctor: Gormod o siwgr
 yn y gwaed
 Fi: [â dwylo budr yn
 selio llygaid dynion eira
 fy nghalendr adfent.
 Cyfogi ar lymphiau tew o siocled]
 Doctor: Wnei di ddim gwella
 Fi: Ma hynny'n ddrwg, tydi
 Doctor: Ond mae modd ei drin o
 [eto, yn arafach] in-sw-lin
 [syrinj o'i boced yn
 waetgoch ond yn llawn-]
 Fi: in-sw-lin?
 Doctor: in-sw-lin.
 [siot swigod, arc oer a chlir
 oglau paent a llosgi]
 yn dy fol di wneith o'm brifo
 Fi: Bob dim yn brifo
 Doctor: Wneith hwn ddim
 Fi: [tynnu fy siaced at fy sgwyddau
 a'r llewys yn llusgo nôl
 am byth fel straitjacket]
 Does na'm ffordd arall?
 [Mae'r slwtsh grawnwin yma'n troi arna i]
 Doctor: Na [ochneidia'n dawel
 mae'r nodwydd yn gwenu.
 mae'n ymddiheuro dwi'n meddwl.
 a'r grawnwin gwyrdd sy'n dew
 wrth fy ngwely yn lymphiau siwgr
 oerfelys a gwenwynig
 yn ebychiadau sych fy ngheg]

CARTREFI CYMRU 2.0

Yn 1896 cyhoeddwyd un o gyfrolau teithio mwyaf dylanwadol yr iaith Gymraeg, sef *Cartrefi Cymru*. Cyfrol o ysgrifau taith gan O.M. Edwards wrth iddo grwydro rhai o dai a chartrefi pwysig Cymru oedd hi, o Ddolwar Fechan i'r Lasynys. Ond nid disgrifio'r hyn a welai wrth siwrnea yn unig oedd O.M., eithr creu Cymru o'r deunyddiau crai a ganfyddodd ar ei amryfal deithiau. Cymru wledig, gapelgar o werinwyr diwylliedig oedd hi, antithesis i'r bröydd diwydiannol â'u tân a'u brwmstan.

Dros ganrif yn ddiweddarach, dyma ni yn mynd ati i greu arolwg arall o Gymru, gan unioni'r cam a wnaed i'r bröydd diwydiannol a dinesig gan O.M. Ym mhob rhifyn, byddwn yn gyrru awdur neu lenor i fynd i grwydro dinasoedd a bröydd diwydiannol Cymru i weld be welan nhw, ac i adrodd yn ôl, mewn arbrawf seico-ddaeryddol fawr.

Y tro hwn, **Morgan Owen** sydd yn crwydro Bae Caerdydd ac yn dod a hud y dyfroedd hynny yn fyw i ni.

MORGAN OWEN

TALAITH Y GWYNT

Wele'r afon yn dirwyn heb angerdd na brys i'r lleitbwll mawr ar fin Môr Hafren, sy'n gorwedd yn ddrewllyd y tu hwnt i'r morglawdd. Yma, mae'r môr yn alltud, a'r afon wannaid yn gaeth. Ambell waith, bydd yr heli'n ysgwyd llaw â dŵr croyw afon Taf drwy fwlch yn y mur, ond dim ond pan fydd y naill yn trosglwyddo cwch i'r llall; yna, caea'r drws drachefn, a disymudedd sy'n teyrnasu. Peth chwithig yw teimlo gwynt hallt yn sgubo'r arfordir, yn llwythog o drwst y tonnau pell, heb weld dim o'r terfysg a'r cyffro. Ni fydd ond crychau, ar y gorau, ar wyneb y llyn gwneud. Os bydd y weilgi'n arbennig o wychyr, fe welir (a blesir) y distrych yn dod dros y morglawdd, fel conffeti hallt: nid oes dathlu. Yma, mae gohiriant ar gân y gwynt a'r dyfroedd; yma, daeth amser i ben.

Oedwn ennyd, ac ystyried. Ym Mae Caerdydd, mynegir amser trwy gyfrwng dŵr. Erbyn iddi lyswennu o flaenau'r Cymoedd, mae afon Taf wedi teithio drwy dir sy'n graddol ymagor. Treigla o'r gweundir i'r gwastatir nes bod Môr chwynog-frown Hafren mewn golwg. Yn hyn o beth, mae llifo'r afon yn cyfleu llif amser yn y rhan hon o Gymru. Tardd o berfedd gwlad, lle byddai bywyd yn canlyn troad y rhod a'r bobl hwythau'n teithio mewn cylchoedd amseryddol a daearyddol, gan brin adael dalgylch y pentref (real a dychmygedig); dibenna yn y porthladd, lle bu unwaith fynd-a-dod ar raddfa aruthrol, bensyfrdanol, lle na byddai'r teithio'n gylchol ond yn amlgyfeiriol, yn cyrchu o bob man ac yn anelu am bob man. Cyfoes a chydamserol yw amser y porthladd a'r môr: tyr ar sefydlogrwydd a



Lluniau: Morgan Owen

marweidd-dra. Heigia o luosogrwydd darpar anturiaethau, ac felly mae ganddo untroed yn y dyfodol o hyd. O dipyn i beth, mae pob cam ar hyd yr afon tua'r môr yn denu rhywun at ddi-ben-draw-dod yr eangderau, ac mae hwnnw hefyd yn ymwthio i'r cyfeiriad croes, i fyny'r afon fel llanw. Mae'r afon felly yn llwybr sy'n cysylltu'r blaendir â'r byd, ac yn galluogi'r fforddolyn o bell i gyrraedd yr unigeddau corsiog ym mhen draw'r cwm, pe bai eisiau arno. Dŵr sy'n diriaethu'r daith hon o gyfyngder pen y cwm i addewid dihysbydd y môr.



Teithiodd y diwydiannau i fyny'r afon, lle bu penllanw cynnar yn y blaendir, cyn dylifo yn ôl i'r aber, lle bu gweithfeydd sylweddol yn ddiweddarach, megis yn y Sblot, a sefydlwyd gan gwmni Dowlais. Gwyddys yr hanes hwn yn iawn. Ond yn bwysicach na hyn, daeth pobl yn sgil y dwndwr. Yn Tiger Bay - yr unig enw go iawn ar Fae Caerdydd, mewn gwirionedd – lle roedd yr afon yn ymgolli yn y môr, cydgyfarfu'r ddau lwybr amseryddol. Cododd yma gymuned amlddiwylliannol Gymreig. Ni ddylid gorramantu; nid iwtopia a gafwyd: roedd hiliaeth yn dal i fod yn rhemp, ysywaeth, ac ymerodraeth yn cochi'r byd â gwaed. Ond yn y fan hon, yn fewnol o leiaf, roedd dichonoldeb a chydamseroldeb y môr wedi ymwreiddio ar lan afon Taf, yr hewl a ddaeth â'r byd o hirbell i gyfoethogi cylchred y pentrefi distadl a droes yn drefi. Daeth y pellteroedd yn rhan ohonom fel cenedl.

Ond daeth amser i ben. Digon yw dweud i'r gymuned gael ei chwalu - yn llythrennol - ac i'r trigolion gael eu gwasgaru. Treiodd y diwydiannau, a pheidiodd y môr ag ymweld mwyach. Yn y man, codwyd morglawdd a chreu merbwll lle bu'r aber. Mae terfyn ar lif yr afon. Dyma ble'r ydym heddiw, a cherdded amser wedi dod i stop sydyn.

Er bod y dŵr yn cronni y tu ôl i'r morglawdd, nid yw


amser felly. Y peth mwyaf syn gan ymwelydd â Bae Caerdydd yw cyn lleied o dystiolaeth sydd bod unwaith un o borthladdoedd prysuraf ac enwocaf y byd yma. Ar yr olwg gyntaf, nid yw'r lle hwn yn rhy annymunol, efallai; neu o'r hyn lleiaf, nid yw'n tarfu arnoch nes i chi graffu arno. O fynd heibio, bron na ellid credu bod yr olygfa o'r llyn yn hardd. Ond yn union fel y mae'n rhaid pwmpo aer i'r merbwll yn rheolaidd rhag iddo geulo fel clwyf, cuddir y marweidd-dra amseryddol ym Mae Caerdydd gan yr un hen siopau a fflatiau ag a welir ym mhobman. Neu fe geisir felly: ni all hyd yn oed y maglau twristiaid lawn ddileu'r ymdeimlad fod rhywbeth sylweddol ar goll. Trwy alltudio'r môr, alltudiwyd hanes hefyd. Gwesgir pob diferyn o waed o'r ychydig adeiladau sydd yn weddill o'r cyfnod pan oedd amser, fel dŵr yr afon, yn ymgymysgu â'r breuddwydion a ddeuai fel broc môr yn sgil y tonnau. Lwc i raddau helaeth a achubodd pen Stryd Bute

rhag cael ei falurio: clustnodwyd rhannau helaeth iawn ohoni i'w dymchwel yn wreiddiol. Gwneir sioe fawr o'r adeiladau hyn, ac eraill megis y Pierhead, ond meini unig mewn maes helaeth ydynt, lle bu unwaith ardal gyfan a chyflawn. Gwacter sydd rhyngddynt.

Canolbwynt Bae Caerdydd yw Plas Roald Dahl, a dyma fan sy'n cyfleu naws y lle ehangach i'r dim. Man eang yw hwn, un o'r dociau a ddraeniwyd a'i hysbu a'i droi'n dir i'w droedio. Draeniwyd amser hefyd. Gellwch weld o'i ganol yr holl adeiladau a godwyd yn ddiweddarach, y deipoleg hwyr-gyfalafol ddiflas, yn ogystal â'r goroeswyr pensaernïol prin yma a thraw. Dyma lwyfan i ddrama ryfedd ein hoes, lle rydym yn cymryd arnom fod yr argaen loyw a rown ar adfeilion ein gorffennol diweddar yn ddigon i'n darbwylllo nad yw'n farw. Ond o sefyll yn yr hen ddoc sydd heddiw'n sych, rydych yn ymdeimlo â disymudedd lle roedd y dyfroedd yn cludo di-ben-draw-dod y môr i Gaerdydd, a hithau i'r pellafion. Ond gan ei fod mor agored, mae'r gwynt yn chwannog i ruo drwyddo o'r môr, bid a fo am y morglawdd, ac ychydig o bethau sy'n fwy bywiocaol na hynny. Mae meini'r Pierhead, gerllaw, yn cofio'n dda sut roedd hi; datgana arwyddair ar un o'i furiau: 'wrth ddŵr a thân'. Wrth y dŵr y gwelwn amser ym Mae Caerdydd; wrth ddŵr, fe'i cawn yn ôl.

STEVEN JONES

Y BEIC UN OLWYN



Yn dilyn dyfarniad o ddiffyg teilyngdod am Wobr Goffa Daniel Owen eleni a sylw'r beirniad am werth golygu, penderfynodd *Y Stamp* holi dau hen law am eu barn nhw ar olygu; y naill yn olygydd, a'r llall yn awdur; y ddau yn Alun. Dyma beth oedd ganddyn nhw i'w ddweud.

ALUN JONES (GOLYGYDD)

YR AWDUR A'R GOLYGYDD

Fel athro Cymraeg y bwriais i fy mhrentisiaeth fel golygydd. Wrth ofyn am gerdd neu stori fer yn yr ysgol, anaml iawn y byddwn yn fodlon derbyn y drafft cyntaf ganddynt, yn hytrach rhown gyfarwyddiadau ar sut i'w datblygu, gan ddisgwyl iddynt ymlafnio i'w hysgrifennu. Yn ffodus, yng Nghymru mae gynnon ni Eisteddfodau'r Urdd i sbarduno drwy roi cyfle i ddisgyblion gystadlu yn yr adran lenyddol. Er mwyn datblygu eu crefft byddai'n rhaid i'r egin lenorion ymlafnio i ail a thrydydd ddrafftio eu cynnyrch a hynny mewn cyfnod pan nad oedd defnyddio cyfrifiadur yn gyffredin.

Pan gefais wahoddiad i olygu cyfres o gyfrolau i bobl ifanc, sef *Pen Dafad*, derbyniais y gwahoddiad ar yr amod ein bod yn cael defnyddio awduron ifanc a chefais gyfnod hapus iawn yn cydweithio gyda Nia Royles a Mared Roberts. Yn y cyfnod hwnnw doedd dim cyfarwyddiadau, cyrsiau na hyfforddiant gan y Cyngor Llyfrau felly dilyn ein greddfau wnaeth Nia a finnau fel athrawon Cymraeg a gofyn yr un cwestiynau iddynt ag a wnaethom i'n disgyblion. Ydy agoriad y nofel yn gafael yn nychymyg y darllen ydd ac a ydy e'n llwyddo i ddal diddordeb drwy gydol y gwaith? Ydy'r awdur yn datblygu ei gymeriadau? Ydy'r ddeialog yn llifo ac a lwyddodd i osgoi gorddefnyddio an-soddeiriau a delweddau yn y naratif? Oes gormod o gyd-digwyddiadau ac a ydyn nhw wedi cloi'r gwaith yn effeithiol? Rhaid fyddai ystyried hefyd a ydy'r prif gymeriadau yn gredadwy - yn gredadwy dealler wrth ddarllen y nofel ac nid mewn gwaed oer wedi'r darllen.

Yn dilyn golygu y gyfres *Pen Dafad*, cefais wahoddiad i ymuno â Gwasg y Lolfa. Bu'n rhaid i mi felly dda-dansoddi beth yn union yw gwaith golygydd creadigol. Sylweddolais fod yn rhaid i olygydd ennill ymddiriedaeth yr awdur a bod yn rhaid cydweithio'n hwylus ag ef neu hi. Gwelaf ef fel gwaith tîm; yr awdur a'r golygydd yn cyddynnu er mwyn creu y gwaith gorffenedig. Mae lle i olygydd drafod ac ymresymu â'r awdur, ond ni ddylai golygydd fynnu ei ffordd. Rhaid cofio mai enw'r awdur sydd ar glawr y gyfrol ac mai ef yn y diwedd fydd yn ennill y clod, ac ef hefyd fydd yn derbyn beirniadaeth adolygwyr, pan na fydd



AJ

ei gyfrol wedi llwyddo. Felly, gan yr awdur mae'r gair terfynol, ac mae'n bwysig i olygydd sylweddoli hynny a sylweddoli mai rhoi awgrymiadau i'r awdur y dylai wneud, a rhoi rhesymau dros yr awgrymiadau hynny.

Wrth ymdrin â nofel i oedolion yr un yw'r egwyddori-on ag a ddefnyddiwyd wrth olygu nofelau i bobl ifanc. Efallai fod angen rhoi mwy o sylw i egwyddorion megis: ydy'r awdur yn pregethu gormod, ac oes lle i fod yn fwy cynnil? Ydy ei themâu wedi eu gwau i mewn yn grefftus i gorff y nofel?

Dyna briod waith golygydd creadigol a rhaid gwneud hyn oll cyn rhoddi sylw i'r gwallau ieithyddol a sicrhau cysondeb tafodieithol.

Mae'n gyfrifoldeb mawr derbyn nofel a gwneud awgrymiadau ar sut y gellir ei datblygu. Rhai cyfaddef 'mod i'n dal i deimlo'n nerfus wrth dderbyn nofel newydd ac wynebu'r her o wneud awgrymiadau - rhyw ddwy dudalen fel arfer. Cofiwch, byddaf yn teimlo'n falch wrth weld bod yr awdur wedi pwysu a mesur fy awgrymiadau ac wedi der-

byn rhai ohonynt ond wedi gwrthod eraill. Dyna sut y dylai tîm gydweithio. Rhoi canllawiau ac awgrymu trywydd newydd i awdur weithiau fel y gall ailfeddwl ac ystyried ei waith o'r newydd yw ein rôl ni fel golygyddion.

Yn flynyddol bellach cwyd y drafodaeth ynglŷn â faint o olygu y dylid ei wneud ar nofelau sydd wedi ennill Gwobrau Coffa Daniel Owen a chyfrolau'r Fedal Ryddiaith.

ALUN JONES (AWDUR)

Y BUSNAS GOLYGU 'MA

'Dw i fawr o un am theatr hyd heddiw, ond dw i'n hoff o ddrama a fannu mae'r gwahaniaeth hyd y gwela i.'

Dw i'n dwyn y geiriau yna o e-bost a ge's i gan Llŷr am eu bod nhw'n berthnasol i hyn o sylwadau. Mae drama'n awgrymu awdur; mae theatr yn awgrymu pwyllgor. Dyna'r gwahaniaeth mawr ers rhai blynyddoedd bellach. Er gwaetha'r hyn a ddywedir ac a addolir gan yr Eisteddfod Genedlaethol a theatrau led-led byd fwy na heb, gwaith awdur ydi drama i fod, nid gwaith pwyllgor. (Mae cywaith rhwng dau neu ragor o awduron yn egwyddor wahanol ac yn amherthnasol i'r ddatl hon.) Yr un modd, gwaith awdur ydi nofel i fod, nid cywaith rhwng awdur a golygydd. Mae'r pwyslais a roddir ar ymadroddion fel 'angen golygydd' a 'chydweithio gyda golygydd' ym meirniadaethau'r Fedal Ryddiaith a Gwobr Goffa Daniel Owen, a hyn yn cael ei ailadrodd yn amlach o flwyddyn i flwyddyn, yn rhywbeth peryg, waeth pa mor bwysig a deallus y mae'r beirniaid yn gobeithio ei fod yn ymddangos. O roi'r fath bwyslais arno, y cam anorfod nesa fydd i'r cystadlaethau hyn hefyd gynnwys rheol fel yr un wallgo a orfodir ar y dramodwyr, sef bod y buddugol yn ymrwmo i 'ddatblygu'r potensial' (beth bynnag ddiawl ydi ystyr hynny) drwy 'gydweithio gyda chwmni proffesiynol'. Dim ond newid y gair 'cwmni' i 'golygydd' fydd ei angen.

Mae golygyddion yn angenrheidiol, ond nid ailsgwennu hanner y llyfr ydi eu gwaith nhw, na dysgu'r awdur sut i sgwennu. Atal y wobwr a wnaed yng nghystadleuaeth y nofel ym Môn, ond mae digon o enghreifftiau o weithiau buddugol yn y gystadleuaeth honno ac o'r Fedal Ryddiaith sydd wedi'u newid yn enfawr gan rywun heblaw'r awdur rhwng cyrraedd yr Eisteddfod a chyrraedd y cwsmer. Ddylai hynny ddim cael digwydd. Dylai drama fuddugol fod yn barod i'r llwyfan a dylai rhyddiaith fuddugol fod yn barod i'r wasg (ar wahân wrth

Y cwestiwn y dylid ei holi ydi ai beirniaid y cystadlaethau hyn a'u beirniadaethau sydd bwysicaf, neu fwynhad y darllenwr cyffredin? Os mai'r darlennydd sydd bwysicaf yna mae angen golygu er mwyn sicrhau bod yr awdur yn cael cyfle i ailystyried, i ail ddrafftio ac i freinio'r gwaith. Dyna natur unrhyw broses greadigol ac hanfod perthynas yr awdur a'i olygydd.



AJ

gwrs i fân gywiriadau, ambell wall teipio neu gamsillafiad e.e).

Sian Owen oedd yn golygu 'Lliwiau'r Eira'. Roedd ganddi awgrymiadau, y cwbl yn hynod fuddiol ac yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn, a'r cyfan bron yn cael eu mabwysiadu. Dw i newydd gwblhau dilyniant a gyhoeddir yn lled fuan gyda gobaith. Ynglŷn â honno, mi ge's gan Elinor, cyn-olygydd Gomer, yr awgrym calla a ge's i rioed o bosib, hwnnw hefyd yn cael ei werthfawrogi'n llawn ac yn llawen (ac nid tafla'r blydi lot i'r tân oedd o chwaith). Yr hyn sy'n bwysig ydi bod y ddwy'n gwybod y gwahaniaeth rhwng golygu a busnesa, a llawn cyn bwysiced, yn gwybod bod gwahaniaeth rhwng golygu a busnesa.

LOWRI HAVARD

WILL PENMORFA*

*(1759-1828) Telynor dall teulu Gwynne, Tregib.

Ai dail tafol
oedd fy nhannau
yn dy ddwylo di, Will?

A leddfai fy alawon
frathiad danadl poethion
dy dywyllwch?

A oedd balm ym mhob crosiet,
ac eli ym mhob cwafer
a ddirgrynai drwy fy nghorff -
y corff
a fynwesaist ti
mor aml,
ond na welaist ti
erioed?

Dy fysedd a'm dysgodd i ganu, Will.
Rhoddaist i fi fy llais.

A roddais i ti
lygaid?



Will Penmorfa - R. Chapman (1826)

NOEL JAMES

GLASLANC

Mae Noel James yn enw digon cyfarwydd fel comediwr yn y Gymraeg ac yn Saesneg, a gyda dychymyg mor rhyfygus o fywiog nid oes ryfedd ei fod bellach yn troi at lenydd, gyda'r straeon yn llifo ohono... Dyma ddarn sy'n ddechrau yn unig ar hanesion y glaslanc arbennig, Dwtyn.

Nid oedd gan Dwtyn lot o obaith symud mlaen yn yr hen fyd ma. Wel, pwy yn ei iawn bwyll fyddai'n cymryd plentyn glas o ddifri? Dyna gonsyrn Val ei fam. Yn wir, roedd problemau ein harwr bach wedi cychwyn cyn iddo ymadael â'r groth hyd yn oed.

1969; bore arwisgo y tywysog Siarl yng Nghaernarfon. Dyna lle roedd Val, yn y dorf, yn disgwyl gweld y tywysog ei hun unrhyw foment yn pasio heibio yn ei gerbyd brenhinol. Llyfodd a blasu'r vanilla ar ei thafod. Roedd hi newydd derbyn cornet gan y dyn hufen ia, ac yn awr roedd hi'n anelu tua'r railings a osodwyd wrth ymyl y stryd fawr. Meddylodd am foment am y ffaith fod pob cornet yn blasu o vanilla; ai dyma'r blas yr oedd pob blas arall yn moesymgrymu o'i flaen? Pam felly? Be sy'n bod ar hufen ia siocled? Rhywbeth bach yn wahanol?

Gwaith caled oedd gwthio trwy'r dorf, yn enwedig o ystyried y pwyse ychwanegol ar ei stwmog. Ac ar ôl dod yr holl ffordd o Gwmtawe i Wynedd - trip eitha anfaddeuol mewn Morris Minor - roedd hi wedi blino'n lân.

Ei bola. Dyna gilfan saff. Mewn man'na; 'na lle roedd Dwtyn yn stelcian, y tu ôl i darian groen ei fam. Ymysg hylif bywyd. Synhwyrar fod ei fam yn symud, oherwydd teimlai ei hun yn cael ei siglo lan a lawr. Roedd ei lygaid ar agor, er na allai weld iot. Gwenai trwy'r tywyllwch a gorfoleddu yn ei amgylchfyd. Yn ei glustiau clywai rhythm bwmbwm calon ei fam, a rhwng yr rheini clywed synnau estron y byd allannol – gwylanod, plantos, fan hufen ia – i gyd yn treiddio trwy amdo ei gyn-blentyndod megis un collage clywadwy. Wrth gwrs ni wyddai'r enwau ar y pethau 'ma eto; iddo ef, yn ei ddiniweidra, un cacoffoni cefndirol ydoedd. Ond roedd ganddo amser i wrando.

Roedd ei fam yn ymwybodol o bresenoldeb heddlu, ymysg y dorf; ar y strydoedd; ar draws y sgwar. Yn ôl y papurau roedd disgwyl y bydde trwbwl o ryw fath. Er i arweinwyr y Free Wales Army gael eu 'restio yr wythnos flaenorol roedd 'na grwpiau eraill yn bodoli a digon o

Gymry ifanc yn barod i gymryd yr awenau. N'ôl Wncwl Ffyz ta beth. Triodd hi beidio â meddwl am y peth. Tywynnai'r haul dros ei gwyneb. Clywodd wynt y môr; mor ffres yn ei ffroenau. Yn ei llaw roedd y cornet yn toddi a'r hufen yn diferu i lawr ei blows melyn, ei blows gwyliau. Roedd Wncwl Ffyz wrthi yn y chalet ger Cricieth, yn reparo'r Morris, a hithau wedi mentro mas ar ei phen ei hun ar y bws y bore hwnnw. Doedd neb yn ei hadnabod hi fan hyn. Bob blwyddyn, ym mis Awst, roeddent yn dod lan i'r gogledd er mwyn rhentu chalet oddiwrth Miss Hughes, Cricieth. Mor wahanol i'r de. Neb yn sbio arni o gil eu llygaid.

Ac am y tro cynta yn hanes Gwasanaeth Heddlu Cymru fe roddwyd bobis telepathig ar y stryd, er mwyn canfod troseddwr yn cuddio yn y dorf. Mae'r ffaith yna i'w gweld wedi ei chofnodi yng nghofrestrau swyddogol CID Scotland Yard, neu Buarth yr Alban fel wedws Dyfnwallt gynt. Mae'n wir dweud fod pobl sydd â bwriadon drwg yn eu meddyliau yn allyrru – yn rhoi mas - signals, yn diarwybod iddynt hwy eu hunain; olion anweladwy o'u bwriadon yn cael eu gollwng i'r awyr o'u cwmpas. Maent yn anweladwy i'r person cyffredin, ond i arbenigwr yn y maes (hynny yw, y derbynnydd telepathig), mae'n bosib eu canfod. Canys cymaint yw'r tensiwn sy'n mynd trwy feddwl terfysgwr yn y munudau cyn iddo droseddu fel na all osgoi rhoi bant ddirgryniadau – neu feibs - dinistriol. Mae gwyddonwyr wedi astudio y ffenomenon hon ac y mae wedi datblygu yn faes academaidd poblogaidd – telepathi, ESP, ac yn y blaen. Yn wir, beta' i bod rhai ohonoch chi ddarllenwyr yn gwybod yn union beth fydd y frawddeg nesa... Ond, ar y pryd, n'ôl yn y chwedegau, maes amrwd ydoedd.

Bresych!

Y chwedegau oedd hi cofiwch - pan oedd hippies a phŵer y blodyn yn dylanwadu ar holl haenau cymdeithas. Fe ddywed rhai i Ysgrifennydd Cymru, George Thomas ei hun, geisio hyfforddiant er mwyn synhwyrar 'feibs'

ymbelydrol yma. Rhoi'r gorau iddi wnaeth e ar ôl darganfod yr hyn yr oedd pobl wir yn ei feddwl amdano. Ond si yw hwnna.

Rhaid oedd diogelu'r Tywysog ar bob cyfrif. Dyna oedd safbwynt y sefydliad. Trwy unrhyw fodd, rhaid oedd stopio terfysgwyr cyn i'w feibs meddyliol droi yn rai corfforol ac achosi difrod i fab y Frenhines.

Ac yn wir, fe weithodd y cynllun. Aeth y bobi telepathig - Derek o'dd ei enw iawn ond daeth pawb i'w adnabod fel Bobi - mas ar y stryd am ddeg y bore, wedi ei wisgo mewn dillad plaen, fel nad oedd neb yn gallu gweld taw plismon oedd e - ac am hanner awr wedi dechreuodd ei antennae dychan. Hynny yw, ei antenna meddyliol, yr un yn sownd yn ei ymennydd, y tu ôl i'r pituitary gland, neu, i roi'r term Cymraeg arno... y gland pituitary. Mae gan bawb a'i fam un o'r rhain - chi, fi, pawb, ei fam, ei dad yng nghyfraith - ond dim ond mewn lleiafrif y ffindwch chi antenna sydd â'r potensial i droi'n delepathig. Rhywbeth i wneud ag esblygiad, medde'r gwyddonwyr.

Oedd, roedd Derek yn delepathetic, ac yno ar Sgwâr Caernarfon dechreuodd weld rhywbeth; blur annealladwy yn ymddangos y tu hwnt i'r sbectrwm ymbelydrol; tu hwnt i'r fflags, y markees, a'r castell. Fe welai donnau lliwgar yn yr awyr, yn hofran uwchben tes y dre - tonnau o bob lliw yn lapio megis môr o gwmwl; morfilod glas yn oifad o gwmpas cerflun Lloyd George tra'n chwythu rhaeadrau arian o'u cefnau. Cymylau euraidd o bob llun megis kaleidoscope....

Nid oedd hyfforddiant y CID wedi ei baratoi ar gyfer hyn. Bu bron iddo lewygu, cymaint oedd hyfrydwch llesmeiriol y teimlad a ddaeth drosto. Dechreuodd ddaagrau ymddangos wrth gil ei lygaid, cymaint oedd y wefr. Ac eto, fe'i ddryswyd oherwydd ni allai weld unrhyw ddrygioni yno, na'r un bwriad drygionus chwaith o fewn y tonnau arylw. Yn wir, amheuai p'un ai dinistriol, adeiladol, ynteu jyst abswrdd oedd y freuddwyd hon. Cododd ei fraich er mwyn ceisio cyffwrdd a chydio yn yr hyn a welai o'i flaen. Yn ofer. Does dim modd cyffwrdd yr hyn sydd yn bodoli yn y pen yn unig, p'un ai yn dy ben dy hun neu ym mhen rhywun arall. Ac hyd yn oed tase fe wedi medru eu teimlo, nid prawf fydd hynny eu bod yn gwir fodoli. Fe wyddai y gallai'r weithred o deimlo fod yn hallucination hefyd. Hold on, medde fe wrth ei hun, mae' na rhywbeth yn rhy berffaith yma; rhywbeth naif uffernol yn y lliwiau; rhywbeth plentynnaidd. A phlentynnaidd oedd ei wep yntau wrth iddo

droi ei olygon at y dorf er mwyn ffocysu, a dechrau ar y dasg o ffindo'r 'drwg' weithredwr. O gymryd golwg sydyn o'i gwmpas, doedd neb ar y stryd yn ffitio'r proffeil; neb yn cydymffurfio gyda'r ddelwedd o derfysgwr; neb yn dala suspicious package, neb yn edrych fel se nhw ar fin panicio, na phicnicio chwaith pe bai hi'n dod i hynny. Neb o'dd e'n gallu gweld ta beth. Dechreuodd fecso; efallai taw cael hallucinations oedd e, bod rhyw ddiawl wedi llygru ei de â chyffur gynne yn y ffreutur.

Fel pob heddwes da, roedd ganddo aml i bersona, fel y personoliaeth y gallai ddibynnu arno mewn argyfwng. Dyma foment y Derek sobor. Er i'r gyfaredd ei hala fe bron allan o'i bwyll, anadlodd yn ddwfn, a dilyn trywydd y coch, gwyn a gwyrdd, yr aur, a'r arian, a'r pres, nes cyrraedd ffynhonell y tonnau; diwedd yr enfys seicadelig.

Tynnodd gosh allan o'i got. Gwell bod yn barod, meddyliodd. A wele: menyw ifanc, ddiniwed ei golwg. Ond ma'r blydi hippies i gyd yn edrych yn addfwyn.

- Beth yw dy enw di, gofynnodd.


- Valerie Lewis, atebodd y ddynes gyda'r hufen ia ar ei gên.

Roedd y tonnau yn fwy dwys o lawer yma nag yn unman arall, a sylwodd eu bod yn ffurfio siap twndis uwch pen Valerie; yr arwydd mwya amlwg posib mai allan ohoni hi y tarddent.

Edrychodd i mewn i'w meddwl, a gweld dim; dim ond meddylau cyffredin, atgofion, mater llwyd, gwaed a gwythiennau.

- Beth yw'r lledrith yma?

Yna edrychodd i lawr, a gweld yr ymenydd arall. Ac yn sydyn fe ddiffannodd y tonnau; y lluniau yn yr awyr yn ffrwydro megis sgwigen yn byrstio a throï yn ddim o'i flaen.



*Penny* - Terhi Kalliola

SIÂN MIRIAM

GAFR

(wedi'i ysbrydoli gan y darn o gelf ac wrth feddwl am eifr Dinorwig)

Dy ddilyn di, Dinorwig
Â ngwallt i yn wlyb,
Dinorwig yn llonydd fel gwaelod Llyn Padarn, adlewyrchiad uchel

Uchel yw dy rybudd, ti'n bloeddio'r Gymraeg
Ti sydd yn ffurfio ein nenfwd ers Oes yr Ia - ai ti grëodd ein iaith
Ein traed lletchwith

Troi ffêr yn dy deyrnas

Oni'n ofn geifr o'r blaen. Llgada melyn sâl, sâl ogla pizza caws gafr
Sâl dianc
Sâl hiraeth i ben y chwarel

Gwnewch le i'r coed ifanc anadlu
Rhoi clo ar hanes Eryri.

Chi sy'n ffurfio nenfwd Eryri
Eich camau clip clop yn crenshan
heb dorri y llechi
Clop clip i ben grisha sbeiral
Ein hiaith.

AILBOBI JONES

Yn y golofn yma ym mhob rhifyn rydym yn cloddio am waith llenorion Cymraeg a anghofiwyd gan y status quo. Y tro yma, **Lowri Ifor** sydd yn ein cyflwyno i waith **Ellen Hughes, Llanengan**, sydd wedi ei disgrifio fel yr agosaf at fod yn ffeminydd yn ystyr fodern y gair o ysgrifennwyr ei chyfnod.

LOWRI IFOR

ELLEN HUGHES, LLANENGAN (1862–1927)

Un bore oer o wanwyn yn 1880 ym mhentref bach Llanengan ym Mhen Llŷn, roedd 'na dipyn o lanast ar lawr cegin un o gartrefi'r pentra'. Y rheswm? Wel, roedd Ellen Hughes, a hithau'n ddeunaw oed ar y pryd, newydd dderbyn llythyr yn dweud bod ei cherdd yn cael ei chyhoeddi yng nghylchgrawn *Y Frythones*, ac yn ei chyffro wedi gollwng powlen siwgr a falodd yn deilchion. Ychydig wyddai hi ar y pryd pa mor enfawr fyddai ei chyfraniad hithau i'r byd cyhoeddi Cymraeg erbyn iddi adrodd stori'r diwrnod hwnnw yn nhudalenau *Y Gymraes* yn 1923.

Digon hawdd i ni chwerthin ar yr olygfa 'ddramatig' yma erbyn heddiw (sgwn i faint o gyfranwyr y rhifyn yma o'r Stamp fydd yn malu llestri yn y cyffro o weld eu gwaith mewn print?!) ond yng nghyd-destun y cyfnod roedd cael cyhoeddi eich gwaith yn dipyn o orchest. Roedd nifer y merched oedd yn derbyn addysg dipyn yn is na'r cyfran o fechgyn yn y 19eg ganrif, ac yn 1865 dim ond 48% o ferched Cymru oedd yn gallu 'sgwennu eu henwau. Ychydig iawn o addysg ffurfiol dderbyniodd Ellen Hughes, ond serch hynny roedd hi'n wybodus iawn am lenyddiaeth Cymraeg a Saesneg, a dysgodd ei hun i ddarllen Groeg a Hebraeg – tipyn o gamp!

Mae 'na dipyn o sôn wedi bod yn y misoedd diwethaf am Gywion Cranogwen, ond digon hawdd fyddai dadlau mai Ellen Hughes oedd y cyntaf un i haeddu'r enw, a hithau wedi'i hesgor, fel petai, o 'nyth' Cranogwen ei hun. Fel golygyddes *Y Frythones*, cylchgrawn i ferched Cymru a gyhoeddwyd o 1879 i 1891, roedd Cranogwen yn benderfynol o annog mwy o ferched ifanc i 'sgwennu, a thrwy'r cystadlaethau barddoniaeth, rhyddiaith a thraethodau yma y daeth Ellen Hughes, Llanengan, i amlygrwydd gyntaf. Wrth ysgrifennu amdani yn 1900, mae'n amlwg bod ei thalentau wedi gwneud dipyn o argraff ar Cranogwen:

Teimlwn fel un wedi cael ysglyfaeth lawer, pan,



Ellen Hughes

flynyddoedd yn ôl, y daeth Ellen Hughes i'r golwg.

('Miss Ellen Hughes Llanengan', Y Gymraes, 1900)

Gwnaeth Cranogwen dipyn o argraff ar Ellen Hughes hefyd, fel y disgrifiodd Ellen ei hun yng ngholofn fisol 'Yng Nghwmni Cranogwen' a gyhoeddwyd o 1923-1925 yn *Y Gymraes*. Er nad oedden nhw wastad yn cydweld, does dim amheuaeth bod y ddwy'n rhannu'r un ysfa - i annog merched ifanc Cymru i godi'u lleisiau a sefyll i fyny dros eu hawliau.

Er iddi gyhoeddi dwy gyfrol o farddoniaeth a

rhyddiaith – *Sibrwd yr Awel* yn 1887 a *Murmur y Gragen* yn 1907 - ar dudalennau cyfnodolion a chylchgronau Cymru y mae'r enghreifftiau mwyaf trawiadol o'i gwaith. Cyfranodd nifer o weithiau i *Y Frythones*, *Y Drysorfa*, *Cymru*, *Y Genhinen*, *Y Goleuad* ac *Y Gymraes*, ynghyd ag ambell i gylchgrawn llenyddol Saesneg, gyda hawliau merched yn bwnc gafodd gryn dipyn o sylw ganddi, yn enwedig yn ei cholofn fisol yn *Y Gymraes*.

Cylchgrawn digon ceidwadol ei naws oedd *Y Gymraes* (1896-1933) ar y cyfan, oedd â chysylltiadau agos i'r mudiad dirwest. Roedd y cylchgrawn yn tueddu i ddefnyddio deialogau ffuglennol rhwng merched fel ffordd i drafod pynciau llosg y dydd, ond anaml iawn y byddai unrhyw farn gryf yn cael ei mynegi, a digon comig oedd y darnau hyn o ran naws. Chwa o awyr iach, felly, oedd colofnau diflewyn-ar-dafod Ellen Hughes, oedd ymysg cynnwys mwyaf blaengar pob rhifyn. Doedd ganddi hi fawr o amynedd efo rhai oedd yn dadlau yn erbyn hawl merched i bleidleisio:

Os ydyw dynes yn fod rhesymol a moesol, a thonau tragwyddoldeb yn curo yn ei natur, tybed ei bod islaw meddu y cymhwyster i gael rhan yn neddfwriaeth ei gwlad.

(*Merched a Chynrychiolaeth*, *Y Gymraes*, 1910)

Roedd hi hefyd yn ddigon parod i roi ei barn ar wleidyddion ei dydd (difyr fyddai clywed be 'sa hi'n feddwl o Theresa May...):

Gyda golwg ar hawliau Merch, buasem yn disgwyl na cheid yn 'yr oes oleu hon' yr un dyn o synnwyr cyffredin yn meddwl am eu hamau. Ac y mae y syniad fod hynafgwr o ddoethineb Mr Gladstone yn amau cymhwyster y cyffredin o ferched i gael pleidlais mewn etholiad, yn ymddangos i ni yn rhywbeth i saith rhyfeddu ato!

(*Merch – Ei Hawliau a'i Hiawnderau*, *Cyfaill yr Aelwyd a'r Frythones*, 1892)

Yn ôl yr academydd Jane Aaron, Ellen Hughes yw'r agosaf at fod yn ffeminydd yn yr ystyr modern o 'sgwennwyr ei chyfnod. Yn amlwg, mae 'hawliau a iawnderau' merched Cymru wedi symud yn eu blaenau tipyn yn y go mlynedd ers ei marwolaeth, ond er hyn mae 'na elfennau perthnasol iawn yn ei gwaith hyd heddiw. Ydan, 'da ni

ferched modern Cymru yn llwyddo i gyflawni tipyn mewn amryw o feysydd y dyddiau hyn, ond ella'n bod ni'n dal yn euog o fod yn rhy wylaidd, yn amharod i wthio'n hunain a chyflawni'n llawn botensial. Mi wna i eich gadael chi felly efo 'chydig o gyngor gan Ellen Hughes ei hun:

I lwyddo y crewyd ni oll, nid i aflwyddo. Dyna yr hyn y dylem fod yn ei gylch bob dydd o'n bywyd – rhwystru ein hunain ac eraill rhag myned yn fethiant ... Y mae yn amhosibl i ferch lwyddo ond fel merch, ond nid ydyw hynny yn dweyd nas gall lwyddo mewn llawer cylch a llawer gwaith ag y mae y byd wedi arfer eu gwahardd iddi ... Gelli, ti elli!

(*'Angylion yr Aelwyd'*, *Murmur y Gragen*, 1899)

IONAWR, 1913.

Y Gymraes

CYHOEDDIAD MISOL I FERCHED CYMRU.

DAN OLYGIAETH
CERIDWEN PERIS.

OYF. XVII. RHIF 106.

CYNWYSIAD.

Cyfarchiad Dechren Blwyddyn. Gan Cranogwen.	..	1
Gwraigedd Galilea	..	2
Mrs. Morgan Thomas, Maeres Caerdydd (gyda darlun)	..	3
Merched Enwog—Mrs. Esther Copley Gan Miss Ellen Hughes, Llanengan	..	4
Ofnus Lanc ar Lan y Lli	..	6
Yr Hen Delyn Gymreig	..	6
Cyngor bach i Ferched Ieuainc	..	7
Rhestr Ieuencyd (gyda darlun)	..	8
Hanesion	..	9
Y Rhai a Hunasant—Mrs. Williams, Carno (gyda darlun). Mrs. Robert Owen, Dinbych	..	10
Yngom—Dewis Gwr i Meri	..	11
Stopiwech yr "Ancient Prayer"	..	13
Adolygiadau	..	14
North Wales Women's Temperance Association	..	15

Pris Geinïo.

Dolgyellau: Argraffwyd gan E. W. Evans, Snyddfa'r "Goleuad."

Y Gymraes - un o'r cylchgronau y bu Ellen Hughes Llanengan yn cyfrannu iddo'n gyson. Yn yr enghraifft yma, ysgrifennodd erthygl ar Esther Copley ar gyfer y golofn 'Merched Enwog.'

TUDUR HALLAM PANTYGWYDR

Yn y dwys Seisnigrwydd,
colli 'nabod arnat:
y *chapel* mor ddieithr â mosg.

Y *pastor* clên, o Frynaman,
mor anghyfaith ei acen â *Rabbi*,
a finnau ar goll.

Pob un gair
yn sychu'r gwaed a'm prynodd.
Pob un gân
fel symbal yn tincian.

Ein cariad a oerodd.
Bûm i farw eto,
yng ngriddfan y *born-again*.

Pa ryfedd, felly, dy gasáu –
am fy ngadael yn y *pew* yn gorff
a phoeri'n Seisnig ar ein serch?

Ond *Jesus!* Fi a'n lladdodd,
fi'r God-inebwr,
fi'r Jiwdas a'm cusan main.

A fi sy'n rhyw ddifaru, Dduw,
mai ond geiriau ysgar
sydd rhyngom ni.

Pantygwydr
Baptist Church

Welcomes You

Sunday Services: 9.00am - 10.30am - 6.00pm

All other activities or enquiries - Call into Reception
Phone: 01792 459 144 E-mail: office@pantygwydr.org.uk

Pastors: Rev. Pete Orphan

MIRIAM ELIN JONES

4 DARN O LÊN MEICRO

TWTSH YN RHY HWYR, MEWN TE CNEBRWNG

Dillad duon yn dynn amdani. Chwys yn llosgi patshys melyn yn y flowsen wen. Dafnau o wallt llwyd yn dianc o'r cwlwm tywnn ac yn diferu lawr ei gwar. Sylwodd Edwin ar ei hen gariad o'r newydd wrth gerdded tuag ati'r diwrnod hwnnw, gyda'i blât yn fynydd o ddanteithion te cnebrwng

digon blasus yr olwg o'i flaen.

Ond fe wawriodd y gwir wrth iddo fyta'i fwyd ar ei ben ei hun bach. Roedd y *quiche* yn sogi, y sandwijos yn stêl, a'r weddw ffres eisoes yn fflyrtian gyda Henri Pentrecwrt.

SBARCS

Bu'r tŷ'n union fel pob un arall yn y rhes, tan i Gwyneth gael pwl dwl a phaentio'r drws ffrynt yn goch. Eisiau newid byd, meddai hi. Yn wir, bu cryn dipyn o home improvements yn digwydd 'co yn y blynyddoedd diwethaf, gydag adeiladwyr, plymbwyr a mwy – hwy oll yn llanciau ifanc, cyhyrog - yn galw rowndabowt. Tro'r trydanwr oedd hi bellach.

I'w diriogaeth ef, yn yr ardd, yr aeth Alun – mas o'r ffordd – gan droi at drimio'r berth. Roedd yn licio'i fyd yn gymesur i gyd, heb fod yn rhy ffansi chwaith. Roedd yn

meddwl ei fod yn gwybod yn union beth oedd chwyn – onid mater relative oedd penderfynu beth oedd hynny? – ac yn hapus ei fyd yn tendio'r blodau. Gadwodd i'w feddwl grwydro, gan ddychmygu Gwyneth, yn ei chwrcwd yn y pridd, ei bronau'n rhydd i fownsio dan gryd-T tywnn, yn union fel roedd rhai Charlie Dimmock yn y dyddiau da hynny... Ac wrth feddwl am honno, sylwodd ar gysgod y trydanwr yn yr ystafell wely, a dechrau meddwl, beth yn y byd fu'r plymber yn ei drwsho yn yr un ystafell wely honno yr wythnos cynt?

STYC

Roedd hi wedi amau bod rhywbeth o'i le. Poen bol yn para'n hirach na'r arfer. Swnian ei gŵr yn mynd ar ei fflipin nerfs hi a brwdfrydedd ei chariad ifanc yn ei blino. Wrth fflician drwy'i ffôn ar y tŷ bach, sylwodd ar y dyddiad. Ceisiodd gofio pa bryd y gwelodd wawr goch yn lliwio'i dillad isaf ddiwethaf.

'Shit. Ffycin shit.'

Roedd y poen bol 'di para'n hirach na'r arfer. Ei gŵr yn ei blino a'i chariad yn mynd ar ei fflipin nerfs hi. Ac roedd hi obviously – *obviously!* – yn disgwyl babi.

'Ffyc. Shittin' ffyc.'

TROI MEWN CYLCHOEDD

Ni synnodd Mair, y bore hwnnw, o weld modrwy briodas Emrys wedi'i gadael yn cwrso'i chwt ar ford y gegin. Pymtheg mlynedd o briodas wedi dod i ben yn ddiseremoni, a hithau wedi llwyddo i fagu dim byd ond pwysau yn ystod y cyfnod hwnnw.

Roedd ei modrwy hithau'n dal yn dynn i'r bloneg a

dyfodd fel mwswg dros ei bysedd.

Aeth at y gof, a chau ei llygaid yn dynn wrth wrando ar bzzz brawychus y llif drydanol yn barod i dorri'r rhimyn aur. Ping, ping wedyn: dau hanner cylch yn cwmpo ar lawr concrit, caled y gweithdy.

wedi methu unrhyw beth ar ystamp.cymru?



Dyma flas o'r cynnyrch a gyhoeddwyd ar ein gwefan ers y rhifyn diwethaf:

| Rhestr Ddarllen *Deg Cyfrol gan Awduron Benywaidd* **Mair Rees** | Cerdd *Dyn-gar-gwch* **Lowri Hedd** | Cerdd *Dowlais (Marwnad Hwyrffrydig)* **Morgan Owen** | Cerdyn Post Creadigol *Barcelona* **Caryl Angharad** | Rhifyn 2 *Y Stamp* | Cerddi *Trafferth Mewn Onsen* **Llio Maddocks** | Cyfweliad *Er Cof* | Helfa Drysor *Rhifyn Arbennig Steddfod 2017* | Ffotograffiaeth a Cherddi *Gwobr Bensaerniaeth* **James Morris / Grug Muse** | Pigion Eisteddfodol *Tŷ Gwerin* **Elisa Morris** | Profiad *Pride Cymru* **Jordan Price Williams / Beth Williams-Jones** | Pigion Eisteddfodol *Y Lle Celf* **Sara Alis** | Cerddi *Borewylwyr a Llwyngan* **Morgan Owen** | Adolygiadau *Hyll / Pyroclastig / Ffracas / Cadno* | Stori Ffantasi (3 rhan) *Y Brawd a'r Chwaer* **Elidir Jones** | Cyfweliad **Meddwl** | Adolygiad *Rhywbeth i'w ddweud (gol. Elis Dafydd a Marged Tudur)* **Bethany Celyn** | Stori Fer *Torri Gwallt ar Fore Mawr* **Dewi Alter** | Cerdd *Sul y Carnifal* **Matthew Tucker** | Ysgrif *Cofio* **Sara Borda Green** | Drama Radio *Pwdin Reis* **Mari Elen Jones / Cwmni'r Tebot** |

Mae blas godidog ar y brechdanau hyn, os caf ddefnyddio'r ansoddair. Ar ben hynny, mae'r pecyn yn hysbysebu bod y caws yn dod o wartheg a gafodd eu trin yn dda. Chwarae teg iddynt. Ond y rheswm pennaf i mi ddewis hedfan gyda chwmni o'r Iseldiroedd yw eu bod nhw'n dod i Gaerdydd. Mae'n well gen i osgoi mynd trwy'r broses o esbonio i swyddog heddlu ar y ffin yn Heathrow:

- Ydw, dw i'n dod o'r Ariannin ac ydw, dw i'n siarad Cymraeg.
- Oes, mae 'na Wladfa Gymreig ym Mhatagonia.
- Mining area???* Na, ni aethant draw i weithio mewn pyllau glo (tybed a gollodd y wers 'Gormes cre-

fyddol, diwylliannol, economaidd a gwleidyddol yng Nghymru yn ystod y 19eg ganrif, neu fodiwl cyfan 'Imperialaeth Brydeinig').

A dyma fi nawr, ar fin cyrraedd Cymru unwaith eto, ond ei phrifddinas y tro hwn. Roeddwn i'n disgwyl ymlacio yn ystod y rhan olaf o'r daith, ond mae'r babi sy'n crio y tu ôl i'm sedd wedi penderfynu drostof ei fod am fy nghadw'n effro. Dyna'r rheswm pam fy mod wedi dewis agor y laptop ac ysgrifennu post newydd yn y blog. Mae hanner awr eto cyn glanio.

(*detholiad o Cofio gan Sara Borda Green*)

Da'th dachre *Er Cof* ar ddiwedd haf sobor o bryderus a rhwystredig inni, ac i chi'r Stampwyr mae'n siŵr. Wedd y penderfyniad dros BREXIT bach o blow i ni, fel Cymry Ewropeaidd ifanc wedd yn astudio'r celfyddydau ac felly wedd hi'n braf ca'l gwyntyllu o fewn plisgyn 'saff'. Wedi'r cyfan, faint o'r pethe 'y'n ni'n eu dweud 'y'n ni wir yn eu credu a'u meddwl? Mae'n hyfryd ca'l trafod hefyd, dadlau a herio ac weithiau, mabwysiadu barn estron, eithafol neu ishte ar y ffens. Fuse hi'n iach i

bawb ga'l cyfle i ware gyda ni – er mwyn codi ambell grachen, i fagu tamed o blwc i drafod, achos mae'n anodd trafod mewn gwlad lle ma' bawb yn 'nabod pawb. Fuse fe'n iach defnyddio plisgyn *Er Cof* fel therapi gwleidyddol 'fyd falle – yn yr obaith o adael y gwagle perfformio â ffrwyth trafodaethau adeiladol.


(*detholiad o gyfweliad Er Cof*)

ADOLYGIADAU

Mae pob adolygiad unigol o gynnyrch newydd Cymraeg yng nghylchgrawn *Y Stamp* yn ddiennw, gyda'r adolygwyr sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn yn cael eu cydnabod ar dop y tudalennau.

GALAR A FI gol. Esyllt Maelor

Y Lolfa ~ £7.99



Wedi darllen cyfrol Alaw Griffiths; *Gyrru drwy Storom*, ryw ddwy flynedd yn ôl, ro'n i ar dân i brynu copi o'r gyfrol newydd hon sydd hefyd yn mynd ati i ymdrin â phwnc sydd yn dal i fod â thabw yn ei gylch yn ein cymdeithas ni.

Rhagair Esyllt Maelor yw'r cyflwyniad perffaith; neidia'n syth i lo mân y pwnc gan gipio ein sylw a darparu

mewnwelediad onest i'r hyn sydd i ddod. I'w ganmol hefyd mae ei hymdriniaeth sensitif wrth ragrybuddio darllenwyr nad yw'r gyfrol yn rhwydd i'w darllen ar brydiau.

Mae'n agor â chyfraniad llawn anwyldeb Sharon Marie Jones sy'n ymdrechu i egluro'r hyn sydd wedi digwydd i'w mab bach; cyfraniad a ysgrifennwyd mewn modd anhygoel a wnaeth imi deimlo mod i'n gwyllo popeth yn fyw o flaen fy llygaid. Casgliadau amrywiol a geir wedyn o gyfraniadau hynod bersonol, pob un wedi'i 'sgwennu am brofiadau gwahanol iawn o alar a hynny mewn arddulliau amrywiol; yn gerddi, pytiau dyddiadur, neu'n ymdebygu i stori fer.

Cyfraniad creadigol ei natur er cof am ffrind gorau a ddaw â'r gyfrol i ben. Mae gan Lïo Maddocks ddawn amlwg o wneud profiad tu hwnt o anodd yn hawdd i'w ddarllen a'i deimlo ac mae ei chyfraniad yn glo bachus, penigamp sy'n crynhoi'r profiadau drwy hanes y dyn yn y caffi â'i sigaret.

Cydiodd pob cyfraniad yn gryf ynof ond rhaid cyfeirio at gyfraniad hynod bwerus Nia Gwyndaf a ysgrifennwyd gwta hanner blwyddyn wedi iddi golli ei gŵr, Eifion. Mae'n gyfraniad gwefreiddiol o amrwd wedi'i

'sgrifennu'n onest, ac efo calon drom iawn y bu imi roi'r gyfrol i lawr y noson honno; roedd geiriau Nia'n troi'n fy meddwl ymhell wedi cau'r cloriau.

Ymdriniaeth agored, sensitif, ond cignoeth o alar sydd yma; pwnc sydd wedi bod yn un i ddelio ag o tu ôl i ddrysau caeedig ers blynyddoedd. Ydi o'n hawdd ei ddarllen? Nac ydi. Ond mi fyddwn i'n dadlau mai dyma un o'r petha' pwysicaf ddarllenwch chi fyth.

HOLLI Manon Wyn Williams

Theatr Genedlaethol Cymru

Hydref 2017

CAST

Siw Hughes, Gwyn Vaughan Jones, Dafydd Emyr, Sion Pritchard, Iwan Charles, Steffan Harri, Lowri Gwynne

Cyfarwyddwr: Sarah Bickerton

Clywyd y mân siarad a synhwyryw y bwrlwm yn syth wedi i ddrysau'r theatr agor ar ddiwedd y perfformiad. Roedd y ddrama wedi gwneud yn union yr hyn yr oedd disgwyl iddi wneud; procio meddyliau a phigo cydwybod. Dyma ddrama yn cyflwyno sawl ongl bosib ar destun cyfoes sy'n berthnasol i bawb, yn enwedig i bobl Môn a'r cyffiniau. A ddylai'r Wylfa newydd gael ei hagor neu beidio? Dyna yw'r cwestiwn mawr.

Llanwyd y llwyfan gan lu o actorion profiadol ac roedd eu crefft yn amlwg wrth iddynt bortreadu cymeriadau o gig a gwaed yn fanwl iawn. Llwyddwyd i newid safbwyntiau'n gyson ac ymateb i'w gilydd yn hynod o slic ac yn broffesiynol. Clywyd canmoliaeth gan y rhai oedd yn adnabod y cymeriadau go iawn am y ffordd yr oeddent wedi llwyddo i'w portreadu mewn modd mor realistig.

Dyma ddrama unigryw wedi ei hysgrifennu'n gelfydd gan y dramodydd Manon Wyn Williams. Mae'n

ADOLYGIADAU

BETH CELYN

SOPHIE ANN HUGHES

CARYL ANGHARAD

GRUFFUDD EIFION OWEN

LOIS MERERID WILLIAMS

seiliedig ar gyfres o gyfweiliadau a gynhaliwyd gyda rhai o drigolion Môn oedd yn cofio'r effaith a gafodd y Wylfa wreiddiol ar y gymdeithas pan agorodd yn 1971, yn ogystal â'r rhai sydd bellach yn ymgyrchu o blaid ac yn erbyn y Wylfa newydd. Llwyddodd y dramodydd i blethu'r gwahanol safbwyntiau a thynnu meddyliau'r gynulleidfa o un ochr i'r llall. Mae teitl y ddrama hon yn gweddu i'w chynnwys i'r dim - dyma ddrama sydd wedi 'holli' meddyliau amryw o bobl.

POBL I'W HOSGOI Ruth Richards

Y Bwthyn ~ £7.95



Meddylwch am y person mwyaf *annoying* 'da chi'n eu hadnabod, a dwi'n siŵr y ffeindiwch chi ryw elfen ohoni hi neu ohono fo yn y llyfr hwn. Dyma gyfrol o straeon byrion, ffraeth, sy'n herio ein rhagdybiaethau o'r bobl o'n hamgylch. Cawn yma bortreadau lliwgar, diflewyn ar dafod o bobl ar y

cyrion; rhai yn ddoniol, ambell un yn ddifrifol, ond pob un ohonyn nhw'n cyffwrdd â nerf wrth i Ruth Richards bigo ein cydwybod.

Mae dawn Ruth yn ei manylion a'i gallu i addasu'r pethau mwyaf cyffredin, fel y teclyn da i ddim; y *Men-O-Pause* a ddarganfyddwn yn y stori 'Jimmy Choos'. Beth yw'r *Men-O-Pause*? Wel, "pâr o binsiars mawr i roi taw ar ddynion er mwyn eu gorfodi i wrando ar gŵynion a phoenau merched." Yndi, mae o'n swnio'n boenus, ac yn peri gofid mawr i Islwyn drws nesaf sydd yn gorfod goddef gwasgfa *Men-O-Pause* ei gymydog Mandy.

Mae lleisiau pendant ei chymeriadau yn herio ein disgwyliadau yn ogystal ag amlygu ein hancicwydd mwyaf dynol. Cawn lais pryderus Taid yn 'Chwarae Teg i Undeg' wrth iddo boeni am hunan hyder ei wyres sydd

ond yn derbyn "partia hogia" yn sioeau'r ysgol a byth yn cael "partia genod del"! Mi faswn i'n mynd cyn belled â dadlau bod tinc ffeministaidd i'r gyfrol wrth i Ruth herio'r ystrydeb o beth yw bod yn ddyn neu'n fenyw, a hyn bron ymhob stori.

Mwynheais y straeon yn fawr. Mae pob stori â'i fachyn sydd yn herio llif y naratif. Hynny yw, ei bod hi'n ymddangos bod trywydd amlwg i'r stori ond bod yna drobwynt tua'r diwedd sy'n herio'r arwyddocâd gwreiddiol. Datgela Ruth ar glawr cefn y llyfr: "Yn aml iawn, mae'r sawl a fyynnwn eu hosgoi yn datgelu mwy na fyddwn yn fodlon ei gydnabod amdanon ninnau." Dyma yn fy marn i yw camp y gyfrol. Mae'r cymeriadau a bortreadir mor ddynol, amhosib yw peidio â gweld elfennau ohonom ni'n hunain yn eu gwendidau.

CANRIF YN COFIO

HEDD WYN 1917-2017
gol. Ifor ap Glyn

Carreg Gwalch ~ £9.00



Mae Hedd Wyn yn destun peryglus i fardd. Ar ôl canrif o ganu a choffau, gall hyd yn oed y beirdd taeraf ddisgyn i fagl ystrydeb, a rhaid gofyn y cwestiwn anodd: 'Oes unrhyw beth newydd allwn ni ei ddweud am Hedd Wyn?'

'Wel oes!', haera Ifor ap Glyn, golygydd

Canrif yn Cofio Hedd Wyn 1917-2017.

Fe rannwyd y gyfrol yn ddwy adran, sef cerddi 1917-2016 a cherddi newydd a gyfansoddwyd ar gais y golygydd.

Aeth rhai o'r beirdd hyn ati i ddefnyddio'r hanes i wneud pwyntiau gwleidyddol cyfoes. Aeth eraill ati i

ADOLYGIADAU

BETH CELYN

SOPHIE ANN HUGHES

CARYL ANGHARAD

GRUFFUDD EIFION OWEN

LOIS MERERID WILLIAMS

geisio dod o hyd i Elis, y dyn tu hwnt i'r eicon. Mae'r beirdd hefyd yn archwilio rôl yr Ysgwrn yn natblygiad cwlt Hedd Wyn.

Ac ydi, mae'r gyfrol yn rhoi lle i sinigiaeth tuag at y cwlt hwnnw. Mae cywydd Ceri Wyn Jones, 'Hedd ac Elis' yn disgrifio...

Hedd darn TGAU a cherdd dant.

Hedd a'i wae yn ddiwydiant.


Teg dweud nad am eu gwerth llenyddol yn unig y dewisodd y golygydd holl gerddi'r gyfrol. Mae ambell gerdd wedi ei chynnwys er mwyn rhoi darlun cyflawn o phenomenon lenyddol o bwys. Ond, iesgob, mae 'na gyfraniadau grymus yma hefyd.

Y cerddi a wnaeth yr argraff ddyfnaf arnaf oedd cywydd ymatalgar Rhys Iorwerth, 'Dim ond...'; Telyneg ingol Marged Tudur, 'Mary Evans, mam'; condemniad brathog 'Y Bugail' gan Iwan Llwyd; ac 'Yfed yn yr haul', cerdd annisgwyl a thyner Sian Northey.

Mae pob cenedl angen ei mytholeg, ac mae stori Hedd Wyn yn rhan bwysig o'n cynhysgaeth fel Cymry. Mae beirdd yn dal i gael eu denu at yr Ysgwrn ac at stori bardd y gadair ddu, ac mae'r gyfrol hon yn profi y byddant yn parhau i dyrchu am ystyr o'i fywyd a'i farwolaeth. A dyfynnu rhan o arwyddair cylchgrawn llenyddol arall: 'Yr hen ddweud o'r newydd yw'.

RHANNU AMBARÉL Sonia Edwards

Y Bwthyn ~ £8.95



Mae'n gwestiwn gen i pam y gosodwyd 'Mefusen' ar ddechrau *Rhannu Ambarél*. Stori ragweladwy, ddiddychmyg am ddau stereoteip o gymeriadau sydd wedi ei ddweud ganwaith ac wedi ei ddweud yn well. Ond os mai ceiliogod ffesant 'Wiliam Parry' sy'n tanio'ch libidos â chithau ar fin caru,

siawns y gwnewch chi ei mwynhau hi'n fwy na wnes i. Pawb at ei beth. Mi oeddwn i wedi dechrau anobeithio am y gyfrol yn barod.

Ond mae 'Y Lôn Wen' yn ffresh. Doeddwn i ddim yn siŵr iawn i ba gyfeiriad oedd yr awdures am fynd, ac mi oedd hynny'n chwa o awyr iach ar ôl 'Mefusen'! Dw i'n meddwl 'mod i wedi mwynhau hon.

Ac wedyn dyma gamu'n ôl efo 'Daiwa S31' - stori am ddyn arall yn meddwl efo'i bidlan yn hytrach na'i ben.

👉 ADOLYGWYR! 👈

Mae'r **STAMP** eich angen chi!

dramâu / nofelau / cyfrolau barddoniaeth / cerddoriaeth / celf
Awydd dweud eich barn yn ddi-flewyn ar dafod am gynnyrch newydd
Cymraeg? Cysylltwch â ni!

ADOLYGIADAU

BETH CELYN

SOPHIE ANN HUGHES

CARYL ANGHARAD

GRUFFUDD EIFION OWEN

LOIS MERERID WILLIAMS

'Rhannu Ambarél' sydd nesaf a diolchais amdani. Hon ac 'Elen Fwyn' yw pinaclau'r gyfrol. Dyma ddwy sydd ymysg y straeon byrion orau imi eu darllen ers talwm. Fedra i ddim egluro'r effaith gafodd 'Rhannu Ambarél' arna i ar ôl ei gorffen. Mae hi'n un o'r straeon 'na sy'n symud rhywun i'r byw. Mae'r sgwennu yma'n ffrwyth awdures sydd wedi meistrolï ei chreffft. Ar ôl ei darllen hi

mi oeddwn i'n edrych ymlaen at y nesaf.

Ond 'Elen Fwyn' ydi uchafbwynt y gyfrol, heb os. Stori sy'n mynd â chi'n ôl i'r 60au gwyllt ac mae hi'n llawn secs, drygs a roc a rôl. Ac, wrth gwrs, affêr arall.

Mi oedd darllen *Rhannu Ambarél* yn brofiad diddorol ac estron. Dydw i'm yn cofio'r un llyfr arall imi ddiflasu a chyffroi cymaint wrth ei ddarllen!

£7

£10

£5.95

£9

£9

£8.50

£6.95

£9

£8

£13.50

£9.95


**GWASG
CARREG GWALCH**

www.carreg-gwalch.com

Ffôn: 01492 642031

Efallai eich bod yn cofio **Janice Ann Jones** o ddyddiau cynnar Y Stamp ar y we. Cyfranodd gartŵn o'r bwystfil barddol a elwir yn Aneurig yn ôl ym mis Ionawr. Newyddion da o lawenydd mawr oedd clywed ei bod yn gweithio ar gasgliad newydd sbon o gardiau Nadolig Stampus...

Ar aelwyd teulu Cratchit



"Doedd o'm cynddrwg adolygiad â hynny Tim bach."




Sion Porn



'W, sbiwch golwg...'

6392/4



Dafydd Islwyn yn rhannu rhifyn Nadoligaidd cyntaf Barddas- 'Llund Sach o Ganu Patriarchaidd'-1906



ELIN MEREDYDD ADNABOD YR ARTIST

Mae #elinmeredydd yn artist gweledol sy'n dadansoddi ffrwyth llafur banal a magnolia pob artist sy'n creu drwy berfformio.

Gadawodd ei chartref yn Ynys Mon yn 2012 i astudio peintio yn Mhrifysgol y Celfyddydau, Llundain, ac wedi iddi gwblhau ei gradd mae wedi bod yn artist preswyl fel rhan o UNIT(e) yn galeri G39 yng Nghaerdydd ac yna yn y *Bomb Factory Art Foundation* yn Llundain. Mae hi bellach yn gweithio drwy gyfrwng ffilm, ysgrifen a pherfformio.

Yn ddiweddar mae hi wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ar ôl cyfnod yn byw yn Fenis, lle bu'n gweithio ar arddangosfa Cymru yn y Venice Biennale. Ar hyn o bryd mae hi'n paratou ar gyfer perfformiad ym mis Tachwedd wedi iddi gael ei henwebu ar gyfer Gwobr Gelfyddyd Gymreig NOVA.

Mae'r artist yn defnyddio ei hen archif o ddogfenaeth banal fel catalydd i ail greu, ail berfformio a chreu mwy o ddogfenaeth banal yn aflwyddiannus. Er hyn,

mae #elinmeredydd yn taro ar yr un casgliad bob tro, sef fod perfformio yn gyfrwng byrhoedlog na ellir ei ail-greu.

Mae #elinmeredydd wedi cael llond bol o bobl yn 'methu' ei sioe.

Mae #elinmeredydd wedi cael llond bol o gael dogfenaeth banal yn unig fel prawf o'i gwaith.

Mae #elinmeredydd wedi dod yn or-ymwybodol bod gyrfa fel artist sy'n perfformio yn ddibwynt os ydi pobl yn methu ei sioe.

Fodd bynnag, gan nad ydi hi'n gallu cuddio y tu ôl i'w label 'artist ôl-raddedig' ac yn bell o fod yn 'artist sy'n dod i'r amlwg', mae hi erbyn hyn yn ymroddedig i ddatblygu ei phresenoldeb 'ar-lein.' Yma gall barhau i fod yn gyson ac yn gyfoes, tra'n nofio yn ei phwll o ddilynwyr newydd ac yn torheulo ym mhob dirgyrniad o 'hoffter' a gyrhaedda ei ffôn.

Mae clawr y rhifyn hwn wedi ei ysbrydoli gan ennyd dros dro sydd wedi ei hoelio i'r cof trwy gyfrwng y we.

Y STAMPWYR

Elin Meredydd

@ElinMereds // elinmeredydd.com

(gweler gyferbyn)

Aneirin Karadog

@neikaradog

Mae'r bardd Aneirin Karadog yn byw gyda'i wraig Laura a'u plant Sisial ac Erwan. Yn ogystal â barddoni mae hefyd yn fyfyrwr ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe ac wedi cyhoeddi tair cyfrol o farddoniaeth. Daeth *Bylchau*, y gyfrol ddiweddaraf, i'r brig yng ngategori barddoniaeth cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2017.

Steven Jones

Un o Dreffynnon sy'n gweithio fel cyfieithydd. Yn hoff o eiriau a lluniau, yn enwedig pan gaiff y ddau eu cyfuno. Yn ei amser hamdden, does dim yn well ganddo na mynd allan ar ei feic un olwyn 36" ar hyd y llwybrau seiclo lleol.

Lowri Ifor

@lowriifor

Mae Lowri Ifor yn byw yng Nghaernarfon ac yn ymddiddori mewn hen gylchgronnau a hanes merched Cymru.

Terhi Kalliola

Daw Terhi o'r Ffindir ac mae wedi bod yn artist mewn rhyw ffurf neu'i gilydd ar hyd ei hoes. Yn mwynhau peintio anifeiliaid a byd natur mewn dyfrlliw, mae hi'n byw yn Helsinki efo'i merch ac yn breuddwydio am fod yn berchen ei gafr ei hun!

Tudur Hallam

Mae Tudur Hallam yn Athro'r Gymraeg yn Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe. Enillodd Gadair Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a'r Cymoedd, 2010.

Siân Miriam

Cerddor, perfformwraig, cantores, actores, tiwtor llaw-rydd, artist gweledol a chlywedol, cyfansoddwraig a bardd. Yn wreiddiol o Langristiolus, Sir Fôn, mae'n rhannu ei amser bellach rhwng Môn a Chaernarfon. Un o Gywion Cranogwen.

Morgan Owen

@morgowen // rhith.tumblr.com

Y bardd sydd, ar y cyd â'r artist Efa Lois, yn rhedeg prosiect Rhithganfyddiad, sy'n cofnodi pensaerniaeth yn weledol a thrwy eiriau. Enillydd tlws Barddas er cof am D. Gwyn Evans yn Eisteddfod Genedlaethol Môn eleni.

Natalie Ann Holborow

@missholborow // goodnightindigo.wordpress.com

Bardd o Abertawe sy'n ysgrifennu'n Saesneg. Enillodd wobr Robin Reeves a gwobr Terry Hetherington yn 2015 a daeth yn ail am wobr *New Voices* PENCymru yn 2016. Cyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf o farddoniaeth, *And Suddenly You Find Yourself* gyda Parthian eleni. Mae'n gweithio ar ei nofel gyntaf gyda chymorth bwrsariaeth Llenyddiaeth Cymru.

Noel James

@noeljames3

Mae Noel yn adnabyddus fel digrifwr o Gwm Tawe, ac yn troi ei law at lenyddiaeth am y tro cyntaf.

Beth Celyn

@BethCelyn // soundcloud.com/beth-celyn

Cantores-gyfansoddwraig o Ddinbych sydd wedi dychwelyd i Gymru ar ôl cyfnod yn byw yn Llundain. Mae hi'n un o Gywion Cranogwen, ac ym mis Rhagfyr bydd yn rhyddhau ei EP cyntaf ar label Sbrigyn Ymborth.

Gruffudd Eifion Owen*@Gruffudd_Owen*

Mae Gruff Sol Owen yn byw yng Nghaerdydd. Mae ganddo farf a sbectol, ac weithiau mae o'n gwisgo het. Tydi o heb werthu ei enaid, ond mae o yn ei rhentu hi allan.

Caryl Angharad*@caryl_angharad*

Myfyrwraig y Gymraeg ar ei thrydedd flwyddyn ym mhrifysgol Bangor. O Garmel ger Caernarfon. Gweithio yn Topshop ar benwythnosau. Llyfrbryf sy'n hoffi rhedeg, sgwennu a thafarnau.

Lois Mererid Williams

Yn dilyn graddio yn y Gymraeg o Brifysgol Bangor, mae hi bellach yn athrawes gynradd ym mro ei mebyd, sef Ynys Môn. Hoff o actio ac ysgrifennu o bryd i'w gilydd pan mae amser yn caniatáu.

Alun Jones (Golygydd)

Ganwyd yn Llanpumsaint ger Caerfyrddin. Bu'n Athro Cymraeg Uwchradd ym Mhontypridd, ym Mlaenau Ffestiniog, ac yn Aberystwyth. Mae'n diwtor Cymraeg Uwchradd yn adran Addysg Prifysgol Aberystwyth, ac mae'n olygydd i wasg Y Lolfa ers ugain mlynedd.

Alun Jones (Awdur)

O Drefor yn wreiddiol. Sefydlodd siop lyfrau Llên Llŷn ym Mhwlheli ym 1970. Mae ganddo naw o nofelau wedi eu cyhoeddi, yn cyfrannu colofn fisol i Llanw Llŷn, ac yn olygydd cylchgrawn Y Casglwr.

Sophie Ann Hughes*@SophieAnn24*

Mae'n byw yng Nghaernarfon. Cwblhaodd ddarn o waith arbenigol yn astudio arwyddocâd ac effaith cyfrwng iaith mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Wedi cyfnod yn gweithio ym myd gwleidyddiaeth, mae bellach yn Swyddog Gosod Safonau i Gomisiynydd y Gymraeg, ac yn aelod o dîm rheoli meddwl.org.

Alek Bednarski*alekbednarski.com*

Brodor o Lublin, Gwlad Pwyl. Addysgwyd ym Mhrifysgol Gatholig Ioan Pawl II Lublin, ac mae'n ddarllenydd yn y Gyfadran Geltaidd yno. Cyhoeddodd gyfrol am waith Niall Griffiths, nifer o erthyglau academaidd am ffuglen Gymraeg, ac un nofel, „Onde estas?” Mae'n darlunio a chreu cartwnau yn ei amser sbâr, ac yn byw gyda'i deulu yn Lublin.

Miriam Elin Jones*@miriamelin23 // miriamelinjones.cymru*

Llenor a myfyriwr PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth. Un o Gywion Cranogwen.

Grug Muse*@Elan_Grug*

Bardd, beiciwr, blogiwr. Myfyriwr ymchwil yn adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Cyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf o gerddi, *Ar Ddisberod*, eleni. Un o Gywion Cranogwen.

Iestyn Tyne*@iestyn_tyne*

Llenor, cerddor a myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Enillydd Coron Eisteddfod yr Urdd a chadair Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru 2016. Cyhoeddwyd ei gyfrol gyntaf o gerddi, *addunedau*, eleni.

Llŷr Titus

Awdur a dramodydd sydd wrthi yn astudio PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Enillodd *Gwalia*, ei nofel ffug wyd-donol i blant wobr Tir Na n-Og yn 2016. Mae Llŷr bellach yn astudio am semester yn adran Geltaidd Prifysgol Harvard.




O'r Pedwar Gwynt



TANYSGRIFIAD BLWYDDYN
AM GYN LLEIED Â £10

pedwargwynt.cymru

#LlyfrauDrosGymru




Gwybodaeth am holl lyfrau'r wasg ar
www.ylolfa.com

Dilynwch ni!



addunedau



Cyflwr newydd o farddoniaeth
lestyn Tyne



"Mae'r prydferth a'r dyrchafol yn ei lyfr newydd... ond does dim hunan dwyll ynglŷn â nhw pan maen nhw'n ymddangos..."

addunedau.weebly.com

£5



Ôl-rifynnau **Y STAMP** ar gael i'w lawrlwytho am ddim ar ystamp.cymru



£4.00

Argraffwyd gan Argraffwyr Cambrian